

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/prom

# PROM

Golwg Llygad Pry

Pensaernïaeth Carchar

Cofio Holodomor

Ysgolheigion Peter Hancock

Bywyd Newydd i'r Hen Goleg




# Ysgoloriaethau graddedigion Aber

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig Ysgoloriaeth tuag at ffioedd dysgu cyrsiau Meistr a Ddysgir drwy Gwrs, LLM drwy Ymchwil, a graddau MPhil i raddedigion Prifysgol Aberystwyth sy'n cofrestru i astudio yn 2018.
Os oes gennych radd Baglor Dosbarth Cyntaf, bydd yr ysgoloriaeth yn talu am 20% o'ch ffioedd dysgu. Bydd myfyrwyr â graddau Ail Ddosbarth ar dir i gael ysgoloriaeth gwerth 10% o'r ffioedd dysgu. Rhaid i'r ceisiadau am y cwrs perthnasol fod wedi cyrraedd erbyn **27 Gorffennaf 2018** fan hwyraf: www.aber.ac.uk/cy/postgrad/howtoapply/

**Cwrdd â'ch dyheadau personol a phroffesiynol drwy raglen Raddedig yn Aberystwyth, gan gynnwys...**

- ✓ Meistr mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth a achredir gan *CILIP*
- ✓ Cwrs MSc 2 flynedd mewn Cyfrifiadureg (Peirianneg Meddalwedd) (gydag Hyfforddiant Diwydiannol a Phroffesiynol)
- ✓ Cyrsiau dysgu o bell ar gael
- ✓ Cyrsiau Ymarfer Dysgu a datblygiad proffesiynol
- ✓ Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth – rhaglen wedi'i theilwra i uwchraddedigion sy'n gwneud gwaith dysgu, neu staff sy'n cynorthwyo â dysgu, yn arwain at Gymrodoriaeth Gyswllt o'r Academi Addysg Uwch

#CaruAber

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2018
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AR GYFER ANSAWDD DYSGU

0118 - 22521

# CYNNWYS

## CROESO

Croeso i rifyn diweddaraf PROM a'i ddetholiad arferol o newyddion a gwybodaeth o Aber. A minnau'n olygydd newydd, rwy'n mawr obeithio y byddwch yn mwynhau darllen y rhifyn hwn, ac wrth gwrs, edrychaf ymlaen at glywed eich adborth a'ch awgrymiadau. Roedd yn ddrwg gennym ffarwelio â'n cydweithiwr a'r cyn olygydd, ein Rheolwr Cysylltiadau Alumni Louise Perkins yn 2017 ond mae'n dda iawn gennym ein bod yn dal mewn cysylltiad agos â hi wrth iddi barhau i fod yn weithgar iawn yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd Anrhydeddus Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Bydd Louise yn enw cyfarwydd i lawer o'n cyn-fyfyrwyr, a hithau wedi bod yn aelod o'r tîm am bedair blynedd ar bymtheg, ac wedi helpu i ddatblygu cymuned ein cyn-fyfyrwyr ym mhedwar ban byd, gan groesawu nifer fawr o gyn-fyfyrwyr yn ôl i aduniadau yn Aber. Talwyd teyrngedau i Louise gan y Brifysgol, Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr a rhwydwaith ehangach y cyn-fyfyrwyr sy'n ddiolchgar iawn iddi am ei chyfraniad ac am ei golygyddiaeth ofalus a difyr o PROM. Os hoffech gysylltu â Louise yn bersonol, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm yn datblygu@aber.ac.uk ac fe anfonwn eich neges ymlaen ati.

**Golygydd**

*Llun y clawr: Llun o lygad pryfyn gan y ffotograffydd macro o fri Frank Prior, un o'n cyn-fyfyrwyr.*

## ERTHYGLAU


10  GOLWG LLYGAD PRY

14  PENSAERNÏAETH CARCHAR

17  COFIO HOLODOMOR

22  YSGOLHEIGION PETER HANCOCK

26  BYWYD NEWYDD I'R HEN GOLEG


## COLOFNAU


4 ........ Yr Is-Ganghellor
6 ........ Y Canghellor a'r Gadair
18 ........ Cyfweliad â Charmian Gooch o *Global Witness*
38 ........ Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr
46 ........ Teyrngedau
50 ........ Cicio'r Bar


## NEWYDDION


8 ........ Newyddion y Brifysgol
24 ........ Aber Dramor
30 ........ Cronfa Aber - Ein Diolch
36 ........ Graddio a Chymrodyr 2017
40 ........ Penodiadau, Gwobrau a Chyflawniadau
42 ........ Silff Lyfrau


Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth yw PROM.

Rydym wedi ymrwymo i warchod eich gwybodaeth bersonol ac i fod yn dryloyw ynghylch y wybodaeth a gedwir gennym. Rydym yn defnyddio eich data at ddibenion cysylltiadau alumni a chefnogwyr, ac i godi arian. Mae ein datganiad llawn ar ddiogelu data ar gael yma: www.aber.ac.uk/cy/development/data-protection

PROM is available in Welsh and English. If this copy is not in your preferred language, please contact **development@aber.ac.uk** or phone 01970 621568 and we'll send you another copy.

Os ydych am dderbyn y newyddion alumni diweddaraf yn gyson o Brifysgol Aberystwyth, diweddarwch eich cyfeiriad e-bost cyfredol ar **www.aber.ac.uk/alumni/diweddarumanylion**, dilynwch ni ar Twitter neu ymunwch â Chyswllt Aber neu ein grwpiau alumni ar Facebook a LinkedIn. Gweler **www.aber.ac.uk/alumni** i gael dolenni.

*Barn yr awduron unigol a fynegir yn yr erthyglau, ac nid ydynt yn cynrychioli'r Brifysgol oni nodir hynny. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y deunydd a gyhoeddir yn gywir ac yn ddibynadwy, nid yw'r cyhoeddwyr yn derbyn atebolrwydd am unrhyw honiadau a wneir gan gyfranwyr.*


PROM 26 | Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth

*Cyhoeddwyd gan: Prifysgol Aberystwyth University*
*Dyluniwyd gan: Y Stiwdio Ddylunio, Prifysgol Aberystwyth*
*Argraffwyd gan: McLays, Caerdydd*



*Mae'n bleser gennyf ysgrifennu am y tro cyntaf yn* PROM *fel Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth. Ers i mi ddechrau yn fy swydd, rwyf wedi cael cyfle i gwrdd â llawer o'n cyn-fyfyrwyr ac mae eich cefnogaeth i Aber ynghyd â'ch uchelgais i sicrhau llwyddiant y sefydliad wedi gwneud argraff fawr arnaf. Diolch i chi i gyd am y croeso cynnes – croeso sy'n un o nifer o'r pethau hyfryd rwyf wedi'u darganfod am fywyd Aber ers cyrraedd yma ym mis Ebrill 2017.*

Bydd ein cenhadaeth a'n gwerthoedd fel Prifysgol yn cael eu hadnewyddu a'u hadfywio yng Nghynllun Strategol 2018-2023, a fydd yn mynd â ni y tu hwnt i'n pen-blwydd yn 150 mlwydd oed yn 2022. Mae'n gyfnod diddorol i'r sector addysg uwch wrth i ni wynebu cymaint o bwysau a heriau, ac wrth i ni ddiffinio lle Aberystwyth ymhellach mewn amgylchedd mwyfwy cystadleuol. Mae'r Flwyddyn Newydd wedi dod â rhagor o newidiadau yn ei sgil. Ar ôl gwasanaethu am dymor llawn o ddeng mlynedd, mae Syr Emyr Jones Parry wedi camu o'r neilltu fel Canghellor a Chadeirydd y Cyngor. Yn 2017 hefyd ffarweliwyd â Thrysorydd y Cyngor Dr Tim Brain a'r Dirprwy Ganghellor Glyn Rowlands, ac ym mis Ebrill 2018, daw tymor Elizabeth France fel Dirprwy Ganghellor i ben. Rydym yn hynod ddiolchgar i bob un ohonynt am eu hymroddiad a'u hymrwymiad i'r Brifysgol, a dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol. Yn olynu Syr Emyr, rydym yn croesawu Dr Emyr Roberts yn Gadeirydd y Cyngor a'r Arglwydd Thomas o Gwmgïedd yn Ganghellor.

Yn rhinwedd fy swydd fel Is-Ganghellor, rwyf yn awyddus i godi statws Prifysgol Aberystwyth ymhellach fel sefydliad sy'n gwneud gwaith ymchwil o safon ryngwladol. Mae dyfnder ac ehangder y gwaith sy'n digwydd yma wedi gwneud argraff fawr arnaf – er enghraifft, rhoi atebion bridio planhigion ar waith yn ymarferol er budd ffermwyr gartref a thramor; gwaith ein gwyddonwyr newid hinsawdd sy'n mentro i bellafoedd yr Arctig, Antartica a mynyddoedd Himalaya; ein hymchwil i ofal iechyd gwledig, neu'r offer 'wedi'u gwneud yn Aber' a fydd yn rhan annatod o daith ExoMars yn 2020. Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwaith ymchwil arloesol sy'n creu effaith ac sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yma yng Nghymru a thu hwnt.

# Tuag at y 150 mlynedd nesaf

Bydd ein cynlluniau uchelgeisiol i weddnewid yr Hen Goleg yn darparu llwyfan i ddangos y gwaith ymchwil hwn, ynghyd â thrysorau eraill y Brifysgol. Da iawn oedd clywed y cyhoeddiad ym mis Gorffennaf llynedd fod Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi clustnodi £10.5m i'r prosiect. Rydym yn awr wrthi'n mireinio'r cynigion i roi bywyd newydd i'r adeilad Gothig hwn ar lan y môr sy'n annwyl gan lawer, ac yn edrych ar ffyrdd o godi'r cyllid cyfatebol ychwanegol o £10.5m. Byddai'n dda gennym glywed eich syniadau wrth i ni osod y sylfeini ar gyfer apêl gyhoeddus. Darllenwch fwy am ein cynlluniau i'r Hen Goleg yn erthygl Dr Rhodri Llwyd Morgan ar dudalen 26-27.

Un arall o'n hadeiladau sydd wedi'i glustnodi i'w ailwampio yw Neuadd Pantycelyn. Efallai y bydd gan rai ohonoch sy'n darllen y golofn hon atgofion melys am fyw yn 'Panty', sy'n darparu llety i fyfyrwyr ers y 1950au a chartref i fyfyrwyr Cymraeg ers 1973. Y nod yw ailagor y neuadd ym mis Medi 2019 gyda 200 o ystafelloedd gwely ensuite ynghyd â mannau cyhoeddus i'r myfyrwyr a'r gymuned fel ei gilydd. Bydd yn gaffaeliad gwirioneddol i'r Brifysgol, i'r gymuned leol ac i Gymru'n ehangach.

Roedd yn bleser cael mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol llynedd i weld cyn-fyfyrwyr Aber yn dod at ei gilydd i gael clonc yn yr aduniad blynyddol ar y maes. Roedd digonedd o resymau i ddathlu wrth i rai o'n cyn-fyfyrwyr gipio rhai o brif wobrau'r Eisteddfod – y Goron, y Fedal Ddrama, y Rhuban Glas a'r Gadair. Cyd-ddigwyddiad hyfryd oedd bod y Gadair a enillwyd gan un o gyn-fyfyrwyr Aber, Osian Rhys Jones, hefyd wedi'i chreu gan un o'n cyn-fyfyrwyr Celfyddyd Gain, Rhodri Owen. Mae meithrin doniau a llwyddiant yn *raison d'être* i ni heb os nac oni bai.

Roedd mis Tachwedd yn fis o fyfyrio a chofio. Yn brudd eu hwyliau ar yr unfed ar ddeg, daeth aelodau o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr ynghyd yn yr Hen Goleg i gofio'r myfyrwyr, y staff a phawb a fu farw mewn gwrthdaro. Eleni, ar 23 Tachwedd 2017, roeddem hefyd yn nodi 85 mlynedd ers Newyn Mawr yr Wcráin neu'r Holodomor yn 1932-33. O dan y plac i'w gofio yng Nghwad yr Hen Goleg, talwyd teyrnged i un o'n cyn-fyfyrwyr a oedd yn un o'r rhai cyntaf i adrodd am y newyn torfol ymhlith cymunedau ffermio yn yr Wcráin. Wrth i chi gael gwybod mwy am fywyd byr ond cynhyrfus Gareth Jones yn erthygl Dr Jenny Mathers ar dudalen 17, rwy'n sicr y cytunwch bod ei ddewrder, ei argyhoeddiad a'i chwilfrydedd yn rhinweddau sy'n amlygu popeth sy'n dda am Aber.

Mae'r Brifysgol hon yn ffodus o'i rhwydwaith hynod weithgar ac egnïol o gyn-fyfyrwyr. Wrth i mi longyfarch Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr ar ei phen-blwydd yn 125, carwn hefyd ddiolch iddi am ei chymorth a'i harweiniad parhaus. Diolch yn arbennig i Steve Lawrence a fu'n arwain y Gymdeithas dros y tair blynedd diwethaf ac edrychaf ymlaen yn awr at weithio gyda'i olynydd yn swydd y Llywydd, John Frampton. Rwy'n hynod falch hefyd fod Lauren Marks, a oedd yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr pan ymunais â'r Brifysgol, wedi cymryd yr awenau fel Is-Lywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Bydd hynny'n cryfhau'r cysylltiadau cynyddol rhwng ein cyn-fyfyrwyr, ein myfyrwyr a'n graddedigion diweddar.

*“Mae'r Brifysgol hon yn ffodus o'i rhwydwaith hynod weithgar ac egnïol o gyn-fyfyrwyr.”*

Bydd y cysylltiadau hyn yn cryfhau ymhellach wrth i ni ddod â chyn-fyfyrwyr Aber ynghyd i ddathlu canmlwyddiant yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear a'r Ysgol Gelf eleni; a Bridfa Blanhigion Cymru (sydd bellach yn rhan o IBERS) a'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn 2019.

Mae cofleidio newid a defnyddio'i egni er daioni yn rhan o hanfod sefydliad blaengar. Ynghyd â'r staff a'r gymuned leol, mae safbwyntiau ein cyn-fyfyrwyr wedi bod o gymorth wrth i ni lunio ein cynlluniau i ddatblygu brand Aber ymhellach yn y dyfodol, a bydd hynny'n parhau. Fy nod dros y misoedd nesaf yw cwblhau'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo i roi sylfaen gryfach a mwy cynaliadwy i'r Brifysgol. Drwy hynny, gan gydweithio fel tîm, gallwn sicrhau bod llwyddiant y sefydliad hwn, sydd mor uchel ei barch ac mor annwyl gan lawer, yn parhau dros y 150 mlynedd nesaf.

**Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor**



# Degawd yn y Gadair



*Ddiwedd mis Rhagfyr 2017, camodd Syr Emyr Jones Parry o'r neilltu fel Cadeirydd y Cyngor a Changhellor Prifysgol Aberystwyth ar ôl gwasanaethu am ddeng mlynedd. Yma, mae cyn Gynrychiolydd Parhaol y DU i'r Cenhedloedd Unedig yn myfyrio ar ei ddegawd yn Aber a sut y daeth i ymgymryd â'r ddwy rôl arwain hon am ddegawd.*

A minnau'n blentyn yn y 1950au, byddwn yn treulio gwyliau'r haf yng Nghei Newydd lle'r oedd Nain yn byw. Byddem yn mynd am dro i fyny ffordd yr arfordir i Aberystwyth o bryd i'w gilydd hefyd, i gael profi gwynt y môr ar y prom a chael hufen iâ os oeddem yn lwcus. Ein teulu ni oedd biau Fferm y Neuadd yn Llwyndafydd. Chwaer fy nain oedd yr aelod cyntaf o'r teulu i fynd i brifysgol, ac i Fangor yr aeth hi, i astudio Ffiseg a graddio ym 1903. Bu'n rhaid aros dros 60 mlynedd cyn i aelod arall o'r teulu fynd i brifysgol, ac i ffwrdd â mi ychydig wedi fy mhen-blwydd yn ddwy ar bymtheg i ddarllen Ffiseg Ddamcaniaethol ym Mhrifysgol Caerdydd, cyn mynd ymlaen i wneud PhD yng Nghaergrawnt.

Flynyddoedd lawer yn ddiweddarach, yn 2001, gofynnwyd i mi gynrychioli'r Ysgrifennydd Tramor ar y bwrdd ymgynghorol ar gyfer Cadair Woodrow Wilson mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ychydig flynyddoedd wedi hynny, cadeiriais seminar i'r Brifysgol yn y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn Whitehall. Yna, traddodais ddarlith ar y Cenhedloedd Unedig yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth. Roedd fy nghysylltiad ag Aber yn cryfhau.

Roeddwn yn Aberystwyth eto yn 2006 ar ddau achlysur arbennig iawn – yn gyntaf, i agor adeilad newydd Gwleidyddiaeth Ryngwladol gyda Phrif Weinidog Cymru ar y pryd, y diweddar Rhodri Morgan; ac yn ail, i'm derbyn yn Gymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol. Yr hyn nad oeddwn yn ei wybod oedd y byddai'r Athro Noel Lloyd (yr Is-Ganghellor ar y pryd) a Thrysorydd y Brifysgol Richard Morgan yn gofyn i mi fynd am dro i "weld yr olygfa" ac y byddent, yn ystod y sgwrs honno, yn gofyn i mi dderbyn swydd y Llywydd, anrhydedd yr oedd swydd cadeirydd Cyngor y Brifysgol ynghlwm ag ef – a dyma lle mae'r gwaith go iawn yn digwydd a lle mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd. Roedd yn gynnig rhy dda i'w wrthod. Roeddwn yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd Aberystwyth fel Coleg Prifysgol cyntaf Cymru a'r cyfraniad aruthrol y mae wedi'i wneud i fywyd addysgol, diwylliannol a gwleidyddol ein cenedl.

Nod y Brifysgol yw rhoi sgiliau bywyd i'n graddedigion. Mae hynny'n golygu eu dysgu i allu meddwl yn feirniadol, gweithredu'n annibynnol, prosesu a dadansoddi gwybodaeth, dadlau, cwestiynu a herio. Dywedodd Skinner, yr ysgolhaig o America, mai addysg yw'r hyn sy'n weddill ar ôl i ni anghofio'r hyn rydym wedi'i ddysgu (ac mae hynny'n sicr yn wir yn fy achos i o safbwynt ffiseg cwantwm). Ond law yn llaw ag addysg daw cyfrifoldeb i roi rhywbeth yn ôl a dyna pam rwyf i bob amser wedi cymryd fy nyletswyddau yma o ddifrif.

Bu newidiadau mawr ym myd addysg uwch ers i mi gymryd yr awenau fel Canghellor a Chadeirydd y Cyngor. Yn fy mlwyddyn gyntaf cyflwynwyd ffioedd dysgu o hyd at £3,000. Mae'r ffioedd hynny bellach yn £9,000 yng Nghymru ac yn uwch yn Lloegr. Yn fy seremoni raddio olaf ym mis Gorffennaf 2017, ymddiheurais ar ran fy nghenhedlaeth i'r myfyrwyr a safai'n falch ger fy mron yn eu gwisg academaidd; y rhai a oedd wedi gorfod talu ffioedd dysgu lle na fu'n rhaid i ni wneud hynny, ac a fyddai'n gorfod ad-dalu benthyciadau enfawr, ac a oedd, at ei gilydd, yn awyddus i Brydain aros yn yr Undeb Ewropeaidd. Bydd heriau eraill yn wynebu graddedigion heddiw wrth iddynt chwilio am swyddi da mewn marchnad sy'n fwyfwy cystadleuol.

A ninnau'n sefydliad addysg uwch, rydym yn gweithredu mewn amgylchedd mwy heriol o lawer heddiw nag yr oeddem




ddeng mlynedd yn ôl. Mae cystadleuaeth aruthrol am fyfyrwyr ledled y sector; mae'r gronfa ddemograffig o bobl ifanc 18 oed yn lleihau; mae costau'n cynyddu, ac mae Brecsit yn mynd â ni i dir newydd. Ond er gwaetha'r amodau sy'n mynd yn fwyfwy anodd, rwy'n ffyddiog fod gennym sylfeini cryf ar gyfer prifysgol gynaliadwy a chystadleuol yn Aberystwyth am flynyddoedd lawer i ddod. Mae Aber wedi adennill ei lle yn y tablau cynghrair. Mae Canllaw Prifysgolion Da 2018 y *Times/Sunday Times* wedi ein henwi'n Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd y Dysgu, ac rydym ymhlith y prifysgolion gorau yn y DU o ran bodlonrwydd cyffredinol y myfyrwyr. Mae ein cyfraddau cyflogadwyedd wedi gwella'n sylweddol. Rydym yn gwybod i ba gyfeiriad rydym am fynd fel sefydliad ac mae ein nod yn glir.

Fy ngwaddol, rwy'n gobeithio, yw fy mod wedi helpu Aberystwyth i gyflawni newidiadau angenrheidiol wrth iddi wynebu heriau sylweddol, yn fewnol ac allanol. Roedd perygl i ni fynd i deimlo'n rhy gyfforddus. Drwy gydweithio, rydym wedi gweddnewid y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithio. Does unman i guddio. Mae'n rhaid i ni i gyd gyfrannu'n gyfartal ac mae'n rhaid i ni fuddsoddi yn y dyfodol. Mae fy nghydweithwyr academaidd wedi ymateb yn dda i'r gofynion a osodwyd arnynt. Mae'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor i gytuno ar becyn ariannu i Bantycelyn yn tystio ymhellach i'n hymrwymiad i fuddsoddi yng nghenedlaethau'r dyfodol, ac yn achos y neuadd breswyl honno, i fuddsoddi yn y Gymraeg a diwylliant Cymru sy'n rhan ganolog o'n cenhadaeth.

Mae ein cenhadaeth sifig yn rhan yr un mor annatod o'n gwerthoedd â'n dyletswydd i addysgu ac i ymchwilio. Golyga hynny fod cyfrifoldeb arnom i gyfrannu at y gymuned rydym yn rhan ohoni. I'r rhai sy'n astudio yma, mae tair cymuned wahanol mewn gwirionedd – yr adran, y brifysgol, a'r gymuned ehangach o'u cwmpas, sy'n cynnwys y dref a'i chyffiniau, a thu hwnt. Y cyfuniad hwn o gymunedau sy'n helpu i wneud Aberystwyth yn lle mor arbennig ac sy'n ennyn cariad a theyrngarwch cenedlaethau o gyn-fyfyrwyr.

Heb os nac oni bai, y bobl rwyf wedi cwrdd â hwy ers dod yma y byddaf yn gweld eu heisiau fwyaf ac sydd wedi gwneud yr argraff fwyaf arnaf – ac yn arbennig felly, wrth gwrs, y myfyrwyr, sef *raison d'être* y brifysgol. Fyddaf i ddim yn gweld eisiau'r siwrnai hir o Gaergrawnt i Geredigion (siwrnai rwyf wedi'i gwneud mwy na 160 o weithiau ers 2007) ond byddaf yn gweld eisiau'r Brifysgol a daearyddiaeth a thirlun godidog yr hyn rwyf yn ei alw'n nefoedd ar y ddaear, lle mae gweld y barcud coch yn cylchu'n tystio bod hon yn rhan arbennig iawn o'r byd.

A dyma ddechrau pennod arall yn fy mywyd. Byddaf yn parhau i fod yn Llywydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac yn aelod o Grŵp Brecsit Llywodraeth Cymru. Rwy'n gobeithio hefyd y caf gyfle i wylio tîm pêl-droed Abertawe'n chwarae yn amlach. Dyw hi ddim wastad wedi bod yn hawdd ond rwyf bob amser wedi ceisio cyflawni swydd ddeublyg y Cadeirydd ac yn fwy diweddar y Canghellor hyd eithaf fy ngallu. Dymunaf yn dda i'm holynydd yn y dyfodol wrth i mi drosglwyddo'r awenau a ffarwelio â sefydliad sy'n cymryd camau cadarnhaol i sicrhau y bydd Aberystwyth yn parhau i fod yn esiampl o ragoriaeth addysgol gynaliadwy a rhyngwladol gystadleuol yng Ngheredigion am genedlaethau i ddod.



# Dal i ddringo'r tablau cynghrair

Cafodd Prifysgol Aberystwyth ei henwi'n Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd y Dysgu yng *Nghanllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times 2018*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017. Dyma'r tro cyntaf i'r wobr nodedig hon gael ei dyfarnu i Brifysgol yng Nghymru. Mae Prifysgol Aberystwyth hefyd wedi dringo i'r 10 uchaf ym Mhrydain ac i'r brig yng Nghymru am brofiad myfyrwyr - 11 safle'n uwch na 2017.

Mae'r canlyniadau diweddaraf yn adeiladu ar lwyddiant parhaus Aberystwyth yn y tablau cynghrair dros y flwyddyn.

Ym mis Awst 2017, roedd Aberystwyth yn dathlu cael ei dyfarnu'r gorau yng Nghymru ac yn un o'r pump uchaf o blith sefydliadau addysg uwch Prydain am fodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr yn *yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.* Yn ôl y canlyniadau, roedd bodlonrwydd myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn 91%, 7 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 84%.

Yn rhifyn 2018 o Ganllaw Prifysgolion *The Guardian*, mae Aberystwyth wedi dringo 27 safle, a hi ddringodd uchaf yng Nghymru a'r ail uchaf ym Mhrydain. Ym Mhrydain yn gyffredinol, daeth Aberystwyth yn drydydd am fodlonrwydd â chyrsiau, yn seithfed am fodlonrwydd â'r adborth, ac yn unfed ar ddeg am fodlonrwydd â'r addysgu.

Yn ôl *The Complete University Guide* a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017, Prifysgol Aberystwyth ddringodd uchaf yng Nghymru a'r trydydd uchaf ym Mhrydain.

Yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr *WhatUni*, pleidleisiwyd bod Aberystwyth yn un o'r deg prifysgol orau ym Mhrydain, ac enillodd hefyd y Wobr Arian yn y categori Prifysgol Ryngwladol orau. Hefyd, daeth Aberystwyth ar y rhestr fer yn y categorïau Llety, Cyrsiau a Darlithwyr, ac Uwchraddedig.

Ar ben hyn, dyfarnwyd bod Aberystwyth ymhlith y 100 prifysgol orau yn y byd am astudio Amaethyddiaeth a Daearyddiaeth, yn ôl Asesiadau diweddaraf QS o Brifysgolion y Byd yn ôl eu pynciau, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017. Caiff pedwar pwnc yn Aberystwyth eu rhoi ymhlith 'Elît y Byd'.

# Ysgrifennydd Addysg yn bresennol yn Seremoni Raddio'r Brifysgol Haf

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, oedd y gwestai anrhydeddus yn Seremoni Raddio Prifysgol Haf Aberystwyth ar 25 Awst 2017.

Nod rhaglen flaenllaw Prifysgol Haf Aberystwyth yw ehangu mynediad i addysg uwch.

Roedd carfan 2017 yn cynnwys 91 o bobl ifanc o bob cwr o Gymru, a bu'r seremoni'n gyfle i'w llongyfarch a dathlu eu gwaith caled a'u llwyddiannau.

Canolfan Prifysgol Aberystwyth ar gyfer Ehangu Mynediad, Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol sy'n trefnu'r Brifysgol Haf, ac meddai Dr Debra Croft, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Rheolwr y Ganolfan: "Cryfder y rhaglen yw ei bod yn adlewyrchu bywyd prifysgol mor realistig â phosibl. Chwe wythnos gyfan sydd gan y myfyrwyr i brofi bywyd prifysgol, addasu i'r profiad o fyw oddi cartref, pwysau cyfun gwaith academaidd a therfynau amser, chwaraeon a gweithgareddau. Maent yn cymryd tri o blith dewis o 27 modiwl academaidd, ac yn cwblhau tri modiwl sgiliau craidd a bywyd hefyd. Rydym yn hynod o falch o bawb sy'n cwblhau'r cwrs a'r rhai sy'n mynd ymlaen i ddilyn rhaglen radd israddedig. Eleni bydd saith o'r myfyrwyr yn dechrau astudio yn Aberystwyth ym mis Medi".

Meddai Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, "Mae nifer fawr o bobl ifanc disglair yn wynebu nifer o rwystrau wrth gael gradd coleg, boed hynny oherwydd y gost, anabledd neu salwch hirdymor, neu hyd yn oed diffyg hyder i wneud cais i Brifysgol oherwydd nad oes ganddynt gefndir teuluol o addysg uwch. Mae Prifysgol Haf Aberystwyth yn cynorthwyo pobl ifanc i oresgyn y rhwystrau hyn trwy eu paratoi ar gyfer addysg uwch a bywyd myfyriwr ac ehangu eu potensial trwy ddysgu sgiliau newydd ac astudio pynciau newydd."



*Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, gyda myfyrwyr Prifysgol Haf Aberystwyth.*

# Cyflwyno Graddau er Cof i Ddwy Fyfyrwraig

Cyflwynodd y Brifysgol ddwy radd ar ôl marwolaeth yn ystod y seremonïau graddio ar 20 Gorffennaf 2017.

Cyflwynwyd gradd BSc ar ôl marwolaeth mewn Astudiaethau Gwybodaeth i Caitríona Rós Lucas, a gradd BSc ar ôl marwolaeth mewn Mathemateg a Ffiseg i Emily Price.

## Caitríona Lucas

Un o Ballyvaughan yn sir Clare yn Iwerddon oedd Caitríona, 41, a dechreuodd astudio gradd BSc mewn Llyfrgellyddiaeth ac Astudiaethau Gwybodaeth ym Mehefin 2015.

Bu'n astudio o bell tra'n magu teulu, gweithio fel llyfrgellydd i Gyngor Sir Clare, a gwirfoddoli gyda'r Gymdeithas Chwilio ac Achub Cŵn.

Roedd hefyd yn gwirfoddoli gyda Gwylwyr y Glannau Doolin yn Iwerddon, gan gwblhau dros 700 o oriau bob blwyddyn.



*Chwith i'r dde y mae'r Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure gyda Bernard, gŵr Caitríona, a'i mhab Ben, a'r Dirprwy Ganghellor Elizabeth France.*

Bu Caitríona farw yn ystod cyrch chwilio ac achub gyda gwasanaeth gwylwyr y glannau wedi i'r bad achub ddymchwel mewn moroedd mawr.

Yn ystod seremoni'r bore, dywedodd yr Athro Judy Broady-Preston, Cyfarwyddwr yr Athrofa Datblygu Proffesiynol: "Bu farw Caitríona Rós Lucas ar 12 Medi 2016 yn gwasanaethu fel gwirfoddolwraig wrth chwilio am ddyn oedd ar goll. Ymunodd Caitríona â'r gwasanaeth yn 2006 a gwasanaethodd gyda'i gŵr Bernard sydd wedi ymuno â ni heddiw, gyda'i mab Ben.

"Roedd Caitríona'n fyfyrwraig boblogaidd a rhagorol a byddai wedi cwblhau ei gradd yn 2017. Mae myfyrwyr a staff Aber yn cofio ei phersonoliaeth fywiog, ei hegni, brwdfrydedd, proffesiynoldeb a'i hymroddiad. Heddiw, dathlwn ei bywyd a'r hyn a gyflawnodd."

## Emily Price

Yn wreiddiol o Huntingdon, swydd Caergrawnt, daeth Emily i Aberystwyth yn 2014 i astudio Mathemateg a Ffiseg.

Ym mis Mai 2017, etholwyd Emily yn 22 oed yn aelod o Gyngor Tref Aberystwyth fel cynghorydd i'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond bu farw ddiwrnodau yn unig wedi'r etholiad yn dilyn salwch byr.

Cyflwynodd Emily ei thraethawd estynedig ychydig ddyddiau cyn yr etholiad a'i bwriad oedd parhau â'i hastudiaethau ar safon Meistr.



*Chwith i'r dde: Aelodau o deulu Emily, ei thad John, ei chwaer Katie a'i mam Natasha, gyda'r Is-Ganghellor yr Athro Elizabeth Treasure a'r Dirprwy Ganghellor Glyn Rowlands.*

Yn ystod ei chyfnod fel myfyrwraig bu'n aelod o'r Gymdeithas Ffiseg a'r tîm ffrisbi eithafol, a bu'n gweithio fel llysgennad myfyrwyr.

Fe ymgymerodd â gwaith estyn allan, yn dysgu ffiseg a mathemateg i blant yn ardal Aberystwyth.

Wrth annerch seremoni'r prynhawn, dywedodd yr Athro Simon Cox, Pennaeth yr Adran Fathemateg: "Synnwyd staff a'i chyd-fyfyrwyr yn fawr iawn gan y newyddion trist am farwolaeth Emily ar 12 Mai. Gwnaeth Emily gyfraniad llawn i fywyd yr adrannau Mathemateg a Ffiseg, gan rannu ei chariad at y pynciau ag ymwelwyr i'r Brifysgol a phlant ysgol."

"Roedd wedi ymgartrefu yn Aberystwyth, ac wedi ei hethol yn gynghorydd tref dros y Democratiaid Rhyddfrydol. Byddwn yn cofio'n gynnes iawn amdani ac yn gweld ei heisiau yn fawr iawn, gyda'i gwên dawel a'i brwdfrydedd."

Mae teulu Emily mewn trafodaethau â'r Brifysgol am sefydlu ysgoloriaeth er cof amdani.

# Athro yn y Gyfraith wedi'i ethol yn Is-Lywydd corff hawliau dynol Ewropeaidd

Mae'r Athro Ryszard Piotrowicz o Ysgol y Gyfraith, Aberystwyth wedi cael ei ethol yn Is-Lywydd GRETA, sef Grŵp Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl.

GRETA yw un o brif gyrff hawliau dynol Cyngor Ewrop. Mae'n monitro sut mae gwledydd Ewropeaidd yn cyflawni eu dyletswydd i amddiffyn hawliau pobl sy'n cael eu masnachu yn ogystal â'u hymdrechion i erlyn masnachwyr pobl.

Etholwyd yr Athro Piotrowicz i GRETA yn wreiddiol yn 2012, ac fe wasanaethodd am dymor pedair blynedd, cyn cael ei ail-ethol am ail dymor ym mis Tachwedd 2016.

Cafodd ei ethol gan ei gymheiriaid i weinyddu fel Is-Lywydd yn 28fed cyfarfod GRETA a gynhaliwyd yn Strasbourg yn Mawrth 2017. Bydd yn gwasanaethu am dymor o ddwy flynedd.

Cafodd yr Athro Piotrowicz gadair yn y gyfraith yn Aberystwyth yn 1999 ac mae hefyd wedi dysgu'r gyfraith ryngwladol ym Mhrifysgolion Glasgow a Durham. Mae'n un o Gymrodorion Alexander-



von-Humboldt a bu'n athro gwadd yn y gyfraith ryngwladol mewn sawl gwlad.

Mae'n arbenigo ar gyfraith ymfudo a'r gyfraith ddyngarol ryngwladol, ac ar hyn o bryd mae wrthi'n gweithio'n bennaf ar y materion cyfreithiol sy'n codi o fasnachu pobl. Mae wedi cynghori cyrff rhyngwladol, llywodraethau cenedlaethol a chyrff anllywodraethol ar y materion hyn.



# Golwg ar reoli clefyd cysgu drwy lygad pryfyn

*Geiriau gan Dr Roger Santer*

*Pryfyn tsetse gydag abdomen chwyddedig ar ôl pryd o waed.*
*Credyd delwedd: Prifysgol Talaith Oregon [CC BY-SA 2.0 (creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0)], via Flickr.*

*Mae'r Gwyddonydd a'r darlithydd Sŵoleg, Dr Roger Santer, yn edrych trwy lygaid pryf tsetse er mwyn canfod sut y mae'n gweld lliw. Bydd yr ymchwil yn cynorthwyo i drapio'r pryfed hyn sy'n bwydo ar waed yn effeithiol ac yn helpu i reoli lledaeniad afiechyd trofannol angheuol.*

Mae lliwiau'n bethau a grëir gan systemau nerfol lawn cymaint â bod yn nodweddion ffisegol o'r byd. Mae hyn yn golygu bod llawer o anifeiliaid yn amgyffred lliw yn wahanol i bobl, sy'n golygu bod eu canfyddiad a'u defnydd o liw yn faes hynod ddiddorol ar gyfer ymchwil gwyddonol. Ond mae datrys dirgelion y ffordd mae anifeiliaid yn gweld lliw yn llawer mwy na diddordeb academaidd yn unig… gall fod yn ddefnyddiol yn y frwydr yn erbyn clefydau drwy ein helpu i greu maglau lliw mwy effeithlon ar gyfer fectorau clefyd fel pryfed tsetse.

I fodau dynol, yr ystod weladwy o donfeddi golau yw ychydig dan 400nm i o ddeutu 700nm, ac mae'r tonfeddi hyn yn cyfateb i sbectrwm o synwyriadau lliw sy'n amrywio o fioled i goch. Er mwyn dychmygu'r sbectrwm, meddyliwch am enfys. Ond er mwyn deall sut mae'r synwyriadau lliw hyn yn dod i fod mewn gwirionedd, mae angen i ni feddwl hefyd am y peirianwaith canfod lliw yn y llygad dynol. Yn y retina ceir dau brif fath o oleudderbynnydd: rhodau a chonau. Mae'r rhodau'n llawer mwy sensitif na'r conau ac yn gallu gweithredu mewn golau pŵl, ond nid ydynt yn cyfrannu at weld lliw - dyna pam fod ein golwg yn y nos i bob pwrpas yn raddlwyd. Yn y cyfamser, dim ond mewn amgylchiadau golau llawer mwy llachar y mae'r conau'n gweithredu, a'u hymateb nhw sy'n darparu'r sail ar gyfer synwyriadau lliw. Mewn bodau dynol ceir tri math o gell côn, gyda phob un yn sensitif i olau mewn rhan wahanol o'r sbectrwm gweladwy. Gelwir y rhain yn aml yn gonau glas, gwyrdd a choch (er bod annormaledd yn y conau gwyrdd neu goch yn gymharol gyffredin, gan arwain at ddallineb lliw coch-gwyrdd). Yn hytrach na chanfod yr union sbectrwm o donfeddi sy'n mynd i mewn i'r llygad, mae ein system nerfol yn cynhyrchu synwyriadau lliw drwy gymharu ymatebion perthynol ein tri math o gell côn. Gallwn ddangos hyn yn rhwydd gydag arbrawf syml. Yn gyntaf ffocyswch eich llygaid ar ganol y cylch lliw isod am o ddeutu 30 eiliad. Yna ffocyswch eich llygaid ar ganol y sgwâr plaen gwyn ar y dde …



"dyw llieiniau coch ddim yn amlwg i lygad tarw!"

Gobeithio i chi weld 'rhith', sef cylch o liwiau gwahanol a bylodd yn araf gydag amser. Yr hyn sy'n digwydd yma yw wrth i chi syllu ar y cylch cyntaf, mae gwahanol fathau o'ch celloedd côn yn cael eu cyffroi'n gryf yn y rhan o'ch retina sy'n edrych ar bob segment lliw yn y cylch... mae'r conau glas yn cael eu cyffroi gan y segment glas, y conau gwyrdd gan y segment gwyrdd a'r conau coch gan y segment coch. O ganlyniad, mae'r gwahanol fathau o gôn yn cael eu 'blino' gan yr ysgogiad parhaus, ac am ychydig felly mae'n methu ag ymateb i olau (rydym ni'n galw hyn yn addasu). Mae hyn yn golygu pan fyddwch chi'n symud eich llygaid i edrych ar y sgwâr plaen gwyn, o fewn y rhan o'ch retina oedd yn edrych ar bob segment lliw gwreiddiol ceir dau fath o gôn nad ydynt wedi'u cyffroi ond sy'n barod i weithio, ac un sy'n dal yn flinedig nad oes modd ei gyffroi. O ganlyniad, rydych chi'n gweld lliw nad yw yno mewn gwirionedd oherwydd y gwahaniaeth o ran cyffro ar draws y tri math o gôn. Er enghraifft mae edrych ar y segment glas yn blino eich conau glas yn y rhan honno o'ch retina, felly pan fyddwch chi'n symud eich sylw i'r ardal wen, dim ond y conau gwyrdd a choch sy'n gallu cyffroi. Pan fydd y ddau fath hynny o gôn yn unig yn cael eu cyffroi, mae ein hymennydd yn dehongli hynny fel melyn.

Felly, mae synhwyriad lliw yn amlwg yn dibynnu ar y goleudderbynyddion yn ein llygaid, ond yr hyn nad ydych yn sylweddoli o bosibl yw bod y peirianwaith canfod golau yn y llygad dynol yn wahanol i'r hyn sydd gan lawer o anifeiliaid eraill. Os oes gan yr anifeiliaid hynny gyflenwad gwahanol o fathau o oleudderbynyddion, rhaid bod ganddynt hefyd ganfyddiadau gwahanol o liw. Er enghraifft, mae gan lawer o brimatiaid dri math o gôn fel sydd gennym ni, ond dau sydd gan y mwyafrif o famaliaid eraill oherwydd mai dim ond un math o oleudderbynnydd sydd ganddynt sy'n sensitif i donfeddi golau hirach… does ganddynt ddim mathau gwahanol o gôn ar gyfer gwyrdd a choch. Felly er gwaethaf y gred gyffredin, dyw llieiniau coch ddim yn amlwg i lygad tarw! Mae llygaid pryfed yn fwy gwahanol fyth i'n rhai ni. Er enghraifft mae gan wenyn dri math o oleudderbynydd, ond mae'r rhain yn sensitif i olau uwchfioled, glas a gwyrdd; ac mae gan y gleren gyffredin bum prif fath o oleudderbynydd yn rhychwantu rhannau uwchfioled, glas a gwyrdd y sbectrwm.

Clwtyn coch i gynhyrfu'r tarw. Fel llawer o famaliaid, nid oes gan deirw oleudderbynyddion ar wahân sy'n sensitif i wyrdd a choch. Felly er bod coch yn amlwg iawn i'r llygad dynol (chwith) nid yw felly i lygad y tarw (dde). Delwedd wreiddiol gan José Luis Sánchez Mesa (ei waith ei hun) [CC BY 2.0 (creativecommons.org/licenses/by/2.0)], via Flickr. Mae'r ddelwedd ar y dde wedi'i haddasu drwy gyfartalu sianeli lliw gwyrdd a choch, gan efelychu diffyg conau gwyrdd a choch ar wahân.



Ond pam ddylem ni boeni am olwg lliw pryfed? Wel, mae pryfed tsetse yn Affrica Is-Sahara yn bwydo ar waed a gallant roi brathiad cas. Mae'r brathiadau hyn hefyd yn trosglwyddo'r micro-organebau parasitig sy'n achosi clefyd cysgu mewn bodau dynol, a chlefyd tebyg o'r enw nagana mewn gwartheg. Os na chaiff ei drin yn iawn, mae clefyd cysgu yn farwol, ac am nad oes unrhyw frechlyn na phroffylacsis i atal yr haint, mae rheoli tsetse'n rhan bwysig o reoli'r clefyd. Ar gyfer y rhywogaeth o tsetse sy'n trosglwyddo clefyd cysgu gan fwyaf, lliwiau yw'r prif atyniad a ddefnyddir i'w hudo at y dyfeisiau rheoli.



*Ffermwyr yn ne Ethiopia yn gosod magl ar gyfer pryfed tsetse. Credyd delwedd: Peter Rickwood/International Atomic Energy Agency [CC BY-SA 2.0 (creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0)], via Flickr.*

Caiff dyfeisiau rheoli tsetse eu creu o ffabrigau lliw. Mae'r rhain yn cynnwys maglau a thargedau syml wedi'u trochi â phryfladdwr. Ym mhob achos mae'r ffabrig lliw yn denu'r tsetse at y ddyfais, lle byddant naill ai'n cael eu dal neu'n cael dogn o bryfladdwr wrth lanio arno. Dynododd degawdau o ymchwil maes entomolegol fod cotwm â llifyn glas phthalogen yn ffabrig eithriadol o ddeniadol i bryfed tsetse, ac felly mai dyma'r gorau i'w ddefnyddio i wneud maglau a thargedau. Fodd bynnag mae ffabrigau polyester modern yn ysgafnach, yn gryfach yn y maes ac yn dal y pryfladdwr yn fwy effeithiol, felly mae'r rhain wedi disodli cotwm fel y defnydd gorau ar gyfer dyfeisiau rheoli tsetse. Yn anffodus, nid oes modd rhoi llifyn glas phthalogen ar bolyester, felly rhaid defnyddio llifynnau glas amgen. Ond dyma'r broblem: mae treialon maes yn cymharu atyniad cotwm â llifyn glas phthalogen ac amrywiol fathau o bolyester glas wedi dangos bod y cyntaf yn denu hyd at ddwywaith cymaint o tsetse a'r ail.

Yr hyn sy'n allweddol i ddeall y broblem yw sylweddoli bod yr hyn sy'n ymddangos yn las i'r llygad dynol yn amherthnasol i'r tsetse oherwydd ei fod yn dirnad lliw gan ddefnyddio cyflenwad cwbl wahanol o oleudderbynyddion. Yn ffodus, mae goleudderbynyddion pryfed wedi'u hastudio mor eang fel bod modd cyfrif sut y byddent yn ymateb i'r sbectrwm o olau a gaiff ei adlewyrchu o sampl o ffabrig... yn y bôn gallwn ddefnyddio mathemateg i edrych drwy lygad y pryf ar y ffabrigau a ddefnyddir i'w denu. Mae cymhwyso'r dulliau hyn i fesuriadau helaeth o atyniad tsetse i ffabrigau â lliwiau gwahanol o astudiaethau maes blaenorol wedi'n caniatáu ni i fodelu'r modd y mae pob un o bum prif fath o oleudderbynydd y tsetse yn debygol o fod yn cyfrannu at atyniad. Yn y bôn rydym ni wedi creu modelau sy'n esbonio ymddygiad yn y tsetse sy'n cael ei arwain gan olwg gan ddefnyddio'r wybodaeth weladwy sydd ar gael i system nerfol y pryf. Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn awgrymu gwahaniaethau pwysig yn y modd y mae rhai polyestrau glas a chotwm glas phthalogen yn ymddangos i'r tsetse.

Gan adeiladu ar y gwaith hwn, rydym ni nawr yn mynd gam ymhellach. Oherwydd bod ein modelau'n dweud wrthym pa signalau goleudderbynnydd sy'n cynyddu atyniad, a pha rai sy'n ei leihau, rydym ni nawr yn datblygu ffabrigau polyester sy'n cyffroi goleudderbynyddion y tsetse'n fwy effeithiol. Yn y modd hwn, rydym ni'n gobeithio creu ffabrigau polyester hynod o ddeniadol sy'n gallu cynyddu atyniad y tsetse i ddyfeisiau rheoli, gan felly wella rheolaeth y tsetse.

Mae gwir botensial i'r gwaith hwn i wella iechyd a lles cymunedau tlawd, gwledig yn Affrica Is-Sahara drwy ddarparu dyfeisiau mwy effeithlon ar gyfer rheoli pryfed tsetse ac atal clefyd cysgu. Ambell waith gall cwestiynau gwyddonol dyrys arwain at gymwysiadau annisgwyl ond pwysig!



**Darlithydd sŵoleg yn IBERS yw Roger Santer, a ymunodd yn 2010. Yn dilyn ei PhD mewn niwrofoeseg infertebratau ym Mhrifysgol Newcastle bu mewn swyddi ymchwil ym Mhrifysgol Newcastle (2003-2006), a Phrifysgol Nebraska-Lincoln (2006-2008), a bu'n darlithio mewn bioleg ym Mhrifysgol Limerick (2008-2010). Diddordeb Roger yw ymddygiad anifeiliaid a'r mecanweithiau niwral sy'n sylfaen iddo. Mae ei ymchwil cyfredol ar ymddygiad a arweinir gan olwg, a gynhelir yn bennaf ar bryfed ac arachnidau gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau electroffisiolegol, ymddygiadol a chyfrifiannol.**

# GwobrMenterAber

*Mae cerbyd cyflenwi di-yrrwr cysyniadol a ddatblygwyd gan dîm o fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth wedi derbyn hwb o £10,000 ar ôl ennill GwobrMenterAber 2017.*

Caiff GwobrMenterAber, cystadleuaeth syniad busnes myfyrwyr y Brifysgol, ei chyllido gan Gronfa Aber a'i beirniadu gan banel o gyn-fyfyrwyr busnes y Brifysgol.

Mae Kar-go, y syniad buddugol ar gyfer GwobrMenterAber 2017, yn eiddo i'r myfyrwyr Ariel Ladegaard ac Aparajit Narayan, a'r cyn-fyfyriwr Pasi William Sachiti.

Cyflwynwyd siec o £10,000 i Ariel a Pasi gan enillydd *The Apprentice* a sylfaenydd *Ridiculously Rich*, Alana Spencer, ar ôl i feirniaid GwobrMenterAber gefnogi eu cysyniad.

Mae Kar-go, sy'n cael ei ddisgrifio fel y cerbyd sy'n "berffaith ar gyfer dosbarthu mewn ardaloedd preswyl", yn defnyddio cyfuniad o roboteg uwch a thechnoleg cerbydau di-yrrwr. Ei nod yw lleihau "costau cyflenwi'r filltir olaf" yn sylweddol.

Roedd Kar-go yn un o chwe syniad i gyrraedd y rownd derfynol i'w hystyried gan feirniaid GwobrMenterAber 2017, panel a oedd yn cynnwys cyn-fyfyrwyr o Aberystwyth sydd wedi profi llwyddiant ym myd academia, diwydiant a bancio.

Dywedodd cadeirydd y panel, yr Athro Donald Davies, Athro Emeritws mewn Tocsicoleg yng Ngholeg Imperial Llundain a Sefydlwr a Chyfarwyddwr ML Laboratories PLC: "Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi bod yn gysylltiedig â GwobrMenterAber 2017. Mae galluogi myfyrwyr i ddatblygu syniadau a chysyniadau busnes yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol mor bwysig, ac mae GwobrMenterAber yn gyfrwng ardderchog ar gyfer gwneud hyn. Pwysig nodi hefyd fod hyn oll yn bosibl diolch i gefnogaeth ariannol ein cyn-fyfyrwyr; heb eu cefnogaeth nhw ni fyddai GwobrMenterAber yn digwydd,"




*Enillydd 'The Apprentice' Alana Spencer gyda enillwyr GwobrMenterAber Ariel Ladegaard a Pasi William Sachiti.*

Dywedodd Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni Prifysgol Aberystwyth, Louise Jagger: "Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi gwneud GwobrMenterAber 2107 yn gymaint o lwyddiant, ac yn arbennig i Kar-go am eu cysyniad ac am ennill cefnogaeth y beirniaid. Gall cefnogaeth o'r fath olygu cymaint i rywun sydd â syniad gwych ac sydd angen cefnogaeth ariannol ac arweiniad i ddechrau pethau. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cyn-fyfyrwyr sy'n parhau i roi mor hael tuag at Cronfa Aber sy'n ariannu'r wobr ariannol, ac i'r cyn-fyfyrwyr a chefnogwyr am roi o'u hamser i fod ar y panel beirniadu."

Lansiwyd cystadleuaeth GwobrMenterAber 2018 ym mis Tachwedd 2017. Bydd ymgeiswyr hefyd yn gallu chwilio am gyngor arbenigol a mynychu cyfres o weithdai a chyflwyniadau sydd yn cael eu harwain gan bobl busnes llwyddiannus, wrth iddynt ddatblygu eu cynigion terfynol, gan dderbyn cyngor gwerthfawr ar hyd y daith.

# Penodi academydd o Aberystwyth yn Is-Gadeirydd UNESCO yn y DU



*Mae'r Athro Colin McInnes, arbenigwr blaenllaw ar iechyd byd-eang a chysylltiadau rhyngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth, wedi cael ei benodi yn Is-Gadeirydd Comisiwn Cenedlaethol y Deyrnas Unedig (UKNC) ar gyfer UNESCO.*

UNESCO yw corff y Cenhedloedd Unedig sy'n gyfrifol am osod safonau a hyrwyddo Addysg, Gwyddoniaeth, Diwylliant a Chyfathrebu.

Dywedodd yr Athro McInnes: "Mae'n fraint ac anrhydedd cael fy mhenodi i'r swydd hon. Nid unig waith UNESCO yw gosod safonau byd-eang ar draws addysg, y gwyddorau, diwylliant a chyfathrebu, hyrwyddo rhagoriaeth a gweithio i warchod yr hyn sydd orau; ei chenhadaeth allweddol yw hyrwyddo heddwch ym meddyliau pobl ym mhob man."

Mae'r UKNC yn sefydliad cymdeithas sifil annibynnol, sy'n arwain ar bolisïau a gweithgareddau UNESCO yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Athro McInnes wedi bod yn Gyfarwyddwr Anweithredol yr UKNC gyda chyfrifoldeb arbennig am y gwyddorau cymdeithasol a dynol ers 2014.

Mae ganddo Gadair UNESCO ym maes HIV/AIDS, Diogelu Iechyd ac Addysg yn Affrica yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth, lle mae hefyd yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Iechyd a Chysylltiadau Rhyngwladol.

# Rosser F i Cell Block H: O Ddaearyddiaeth i Garchar (Ymchwil)

*Geiriau gan Dr Jennifer Turner*



*Ar 28 Chwefror 2017, prin 83 milltir o Brifysgol Aberystwyth, yn Wrecsam, Gogledd Cymru, agorodd y carchar mwyaf erioed yn Lloegr a Chymru ei ddrysau i'w garcharorion cyntaf.*

Roeddwn i'n disgwyl yn eiddgar am y newyddion wrth i mi eistedd yn fy swyddfa fel Darlithydd yn Adran Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Lerpwl, bron i 12 mlynedd ar ôl cychwyn ar fy ngyrfa fel myfyriwr Daearyddiaeth israddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Yn Aberystwyth y dechreuais ymddiddori yn y sefydliadau tra dirgel, ond cyffredin hyn sy'n ganolog i'r gymdeithas. Fy ngradd BA yn Aberystwyth a'm gwnaeth yn ymwybodol o'r prosesau sy'n ffurfio ein profiad gofodol: ffurfiant tiriogaethau, symudedd, gwaharddiad, ymarferion grym a gwrthwynebiad (ac ymlaen ac ymlaen). Yn y pen draw, dysgodd fy addysg ddaearyddol i mi bod y byd yn llawn ffiniau a therfynau sy'n addas ar gyfer darganfyddiadau ac ymholiadau. Mewn disgyblaeth y gellir cyfieithu ei henw yn 'ysgrifennu daear', canfyddais i mi fy hun ofod unigryw ar y ddaear hon i ysgrifennu amdano – a daeth hyn yn ffocws creiddiol fy MA a PhD, ac ymchwil barhaol mewn Daearyddiaeth: ffin y carchar.

Mae hi'n hawdd ystyried carchar fel rhywbeth sy'n wahanol ac ar wahân i gymdeithas. Gellir dychmygu carchar fel byd ar wahân sy'n cartrefu mintai o unigolion nad yw cymdeithas sy'n parchu'r gyfraith yn eu gweld, yn clywed oddi wrthynt, ac sydd heb unrhyw achos i gysylltu â hwy. Wedi'r cyfan, lleoedd yw carchardai lle y byddwn ni'n fwriadol yn anfon pobl sydd wedi eu cael yn euog yn y llysoedd i dreulio'u dedfryd: 'eu rhoi dan glo' ac 'i ffwrdd' oddi wrth y gweddill o'r gymdeithas 'ddeddfgadwrol'.

Er hynny, mae llawer o academyddion o amrywiaeth o ddisgyblaethau gwahanol wedi ystyried nad yw'r ffin rhwng carchar a chymdeithas yn un galed a phendant.

Dechreuwyd ystyried carchardai yn lleoedd ag iddynt swyddogaeth ganolog i drefn cymdeithas – er enghraifft, mae cysylltiad rhyngddynt ag economïau (yn arbennig mewn gwledydd fel yr Unol Daleithiau lle mae swyddi'n cael eu creu o amgylch cyfleusterau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig lle mae diwydiannau eraill yn brin) neu maent yn ganolog i drefn lywodraethol wleidyddol talaith (drwy gynorthwyo i gynnal cyfraith a threfn).

Mae lliaws o bethau yn croesi ffin carchardai; o nwyddau gwaharddedig, ymwelwyr, gweithwyr cyflogedig, i eitemau cyffredin neu bethau ymarferol megis bwyd, dillad, newyddion, cyfeillgarwch neu hyd yn oed deyrngarwch i dîm pêl-droed arbennig.

Yn hyn o beth, gellid ystyried ffiniau carchardai yn llawer mwy aneglur nag y byddid yn tybio ar y cychwyn.

Mae fy ngwaith diweddar, a gyhoeddwyd mewn llyfr o'r enw *The Prison Boundary: Between Society and Carceral Space* (Palgrave Macmillan, 2016), yn nodi, er i'r agweddau economaidd a gwleidyddol hyn o ffin carchardai gael eu cydnabod yn eang, mai gwaith sy'n aros i'w gwblhau ydyw er mwyn ymholi elfennau mwy diwylliannol y ffin. Bûm yn trafod hyn yn ddiweddar mewn sgwrs am y llyfr, a ddarlledwyd ar raglen Radio 4 y BBC '*Thinking Allowed*', gan agor trafodaeth am y modd y mae carcharorion yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn 'ddieithriaid' mewn cymdeithas (drwy wrthod eu hawl i bleidleisio, er enhraifft), ond yn aml yn cymryd rhan mewn gweithgareddau traws-ffiniol megis gweithio am y dydd mewn siopau elusen neu Ganolfannau Cynghori; neu gystadlu am Wobrau Koestler am y cyfle i arddangos gwaith mewn orielau megis y Royal Festival Hall.

Ond i ble mae fy ngwaith yn anelu nesaf? Mae'n hanfodol ein bod yn archwilio cynllun ac adeiladwaith carchardai newydd wrth geisio gwneud synnwyr o'r berthynas gyfoes rhwng cymdeithas a charchar. Mae cynllunio carchar yn aml yn gaeth i gryn liaws o ystyriaethau cymhleth, megis cyllid a chreu gwaith; logisteg, cynllunio trefi a rheolaeth amgylcheddol; yn ogystal ag archwaeth gyhoeddus a datganiadau gwleidyddol.

Yn sicr ym Mhrydain, mae'r gyfundrefn gosbi wedi bod yn amodol ar newidiadau arwyddocaol yn ystod blynyddoedd diweddar mewn ymateb i gynnydd yn nifer y carcharorion a'r galwadau ar y pwrs cyhoeddus. Yn ystod y caledi yn sgîl argyfwng cyllidol byd-eang 2008, rhoddodd llywodraeth glymblaid Prydain gynnig ar 'foderneiddio'r' gyfundrefn gosb yn Lloegr a Chymru drwy bolisi 'newydd yn lle hen' a oedd yn golygu cau tri charchar ar ddeg. Yn eu lle mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi adeiladu nifer o gyfleusterau newydd yn cynnwys HMP Thameside yn Llundain, HMP Oakwood yn Wolverhampton ac – yn ddiweddaraf – HMP Berwyn yng Ngogledd Cymru. Dyma lle mae lleoliad hen ffatri deiars gynt wedi rhoi Wrecsam ar y map mewn cylchoedd gwarchodol, gan ddarpau'r nifer fwyaf o welyau mewn unrhyw sefydliad ym Mhrydain.



**Mae Dr Jennifer Turner yn ddarlithydd Daearyddiaeth Ddynol ym Mhrifysgol Lerpwl. Mae ei hymchwil yn ymwneud â gofodau, gweithrediadau a chynrychiolaeth o garchariad, yn y gorffennol a'r presennol. Cyn y swydd y mae ynddi ar hyn o bryd, bu Jennifer yn ymwneud ag amryfal swyddogaethau perthnasol i ymchwil ac addysgu yn dilyn ei gradd BA mewn Daearyddiaeth, MA mewn Gofod, Lle a Gwleidyddiaeth a PhD ym Mhrifysgol Aberystwyth.**

Mewn prosiect a gyllidwyd gan y Cyngor Ymchwil ac Economaidd Cymdeithasol dan arweiniad yr Athro Yvonne Jewkes (Prifysgol Brighton) a Dr Dominique Moran (Prifysgol Birmingham), rydym wedi canolbwyntio ar garchardai a godwyd yn ddiweddar megis Berwyn, er mwyn ystyried sut y mae pensaernïaeth, cynllunio a thechnoleg yn cael effaith ar brofiadau byw carcharorion a staff carchardai. Mae'r prosiect wedi defnyddio dulliau megis mapio gofodol, enynnu ffotograffig, a – rhywbeth digynsail yn amgylchfyd carchardai – cyfweliadau tra'n cerdded gyda charcharorion, mewn astudiaeth gymharol o gyfleusterau gwarchodol yn y DU a Sgandinafia.



Drwy wneud hyn, rwyf wedi gallu holi profiadau'r carchardai mwyaf 'arloesol' sy'n arddangos nodweddion cynllunio megis bariau llorweddol (yn lle rhai fertigol); defnyddiau domestig yn hytrach na 'rhai na ellir eu torri' na'u 'fandaleiddio'; gofodau gwyrddion therapiwtig; a thechnolegau tabled yn y celloedd.

Cefais hefyd y cyfle i ymweld â charchardai mwyaf arloesol y byd, o rai fel Carchar Halden yn Norwy a ddisgrifiwyd fel 'y carchar mwyaf trugarog yn y byd' a HMP/YOI Grampian, yn yr Alban, y carchar 'wynebu'r gymuned' cyntaf a gynlluniwyd i gartrefu pob categori o garcharorion, pob oedran a'r ddau ryw ar yr un safle.



Heblaw hynny, trwy gasglu tystiolaeth o ganfyddiadau helaeth y prosiect, mae'r ymchwil wedi hwyluso cyfraniadau ymgynghori i gynlluniau carchardai a adeiladwyd yn ddiweddar megis HMP Berwyn ac eraill sydd ar hyn o bryd heb eu codi) ac adnewyddiadau mewn carchardai sydd eisoes mewn bod. Fel daearyddwr, mae'r rhain yn gyfleoedd cyffrous ac maent yn dangos sut mae'r ddisgyblaeth yn ymwneud â materion yn y 'byd go iawn'.

Mae astudio daearyddiaeth wedi rhoi i mi safle a safbwynt unigryw i archwilio amgylcheddoedd carchardai a'r modd y maent yn cysylltu â'r gymdeithas eangach, sydd ynghyd â gwaith cydweithwyr mewn pensaerniaeth, troseddeg a chymdeithaseg, yn ychwanegu llawer at dirwedd newidiol gwarchodaeth drwy'r byd.



Yn Aberystwyth y dechreuodd fy ymchwil i garchardai ac mae wedi fy arwain o amgylch y byd – o Norwy i Seland Newydd. Er mae'n debyg na fyddwn wedi rhagweld hynny, rwyf wrth fy modd fy mod wedi crwydro'r byd a dod yn ôl i Gymru i barhau â'm haddysg ddaearyddol.



*CEM Berwyn, Wrecsam*

# Cofio'r Holodomor a'r cyn-fyfyriwr Gareth Jones

*Geiriau gan Dr Jenny Mathers*

Ar bedwerydd dydd Sadwrn mis Tachwedd bob blwyddyn, mae Wcreiniaid ym mhedwar ban byd yn nodi colled erchyll: newyn drwy law dyn a laddodd filiynau o ddynion, menywod a phlant yr Wcráin. Holodomor ("lladd drwy newyn") yw enw'r digwyddiad hwnnw, ac roedd yn ganlyniad i bolisi Stalin ar gyfunoli amaethyddiaeth drwy orfodaeth.

Y stori swyddogol a roddwyd ar led gan y drefn Sofietaidd oedd y byddai ffermydd mawr cyfunol yn cael eu creu i wneud amaethyddiaeth yn fwy cynhyrchiol drwy gyfuno clytiau bach o dir a oedd yn cael eu ffermio'n aneffeithlon gan deuluoedd a chyflwyno tractorau a mathau eraill o offer modern. Byddai hynny'n golygu bod modd cynhyrchu mwy o fwyd, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i fwydo gweithlu'r trefi a'r dinasoedd a oedd yn prysur dyfu ac yn trawsnewid y wlad drwy raglen garlam o ddiwydiannu.

Ond roedd diben gwleidyddol i'r cyfunoli hefyd. Dyma oedd ffordd Moscow o dynhau ei gafael ar gefn gwlad a chael gwared ar yr hyn yr oedd y Blaid Gomiwnyddol yn ei ystyried yn gadarnle olaf y gwrthwynebiad iddi: tyddynwyr cyfrwys a oedd yn cuddio bwyd wedi'i orgynhyrchu rhag y Comiwnyddion ac yn ei ddefnyddio i'w cyfoethogi eu hunain.

Aethpwyd ati i chwalu ffermydd unigol mewn ffordd enbyd o ddidrugaredd, gan fynd â thir, da byw a bwyd oddi arnynt. Roedd yr agwedd ddidrugaredd hon yn arbennig o amlwg yn yr Wcráin, lle'r oedd gwrthwynebiad cryf i'r cyfunoli. Roedd yn yr Wcráin gyfuniad o dir amaethyddol ffrwythlon a phobl ffyrnig o annibynnol ag iddynt eu diwylliant, eu hanes a'u hiaith eu hunain, ac roedd hynny'n rheswm arall i Moscow dargedu'r rhanbarth, gyda chanlyniadau trasig.

Mae gan Brifysgol Aberystwyth gysylltiad arbennig â Holodomor: un o'r newyddiadurwyr Gorllewinol cyntaf i ddweud wrth y byd am yr hyn oedd yn digwydd yn yr Wcráin oedd Cymro ifanc o'r enw Gareth Jones, a fu'n astudio yn Aberystwyth.

Ganwyd Gareth Jones yn y Barri ym 1905 ac enillodd radd dosbarth cyntaf mewn Ffrangeg yn Aberystwyth ym 1926 cyn mynd ymlaen i ennill gradd dosbarth cyntaf arall mewn Ffrangeg, Almaeneg a Rwseg yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt ym 1929. Ym 1930 fe'i penodwyd yn gynghorydd materion tramor i gyn Brif Weinidog Prydain David Lloyd George ac ar ddechrau'r 1930au bu ar sawl ymweliad â'r Undeb Sofietaidd. Yn ystod y mwyaf nodedig o'r ymweliadau hyn treuliodd dair wythnos ym mis Mawrth 1933 yn cerdded yn yr ardaloedd a oedd wedi dioddef fwyaf oherwydd y newyn.

Cyhoeddwyd erthyglau Gareth Jones am y newyn yn yr Wcráin yn y *Western Mail*, y *Manchester Guardian* a'r *New York Times*. Roedd bron yn unigryw ymhlith newyddiadurwyr



*Andriy Marchenko, Gweinidog-Gwnsler yn Llysgenhadaeth yr Wcráin yn Llundain (ail o'r dde), yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Aberystwyth (canol) a Gwenda Sippings, Is-Lywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr (trydydd o'r dde), yn y seremoni i anrhydeddu'r cyn-fyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, Gareth Jones, a roddodd wybod i'r byd am y newyn yn yr Wcráin ym 1932-33.*

y Gorllewin, oherwydd roedd wedi gweld drosto'i hun gost ddynol y cyfunoli ac roedd hefyd wedi bod yn ddigon dewr i herio'r llywodraeth Sofietaidd. Roedd cryn frwdfrydedd yn y Gorllewin ar y pryd ynghylch yr arbrawf Sofietaidd â sosialaeth ond er bod rhai'n amheus ynglŷn â'i adroddiadau, mae'n debyg hefyd mai'r erthyglau hyn ysbrydolodd George Orwell i ysgrifennu *Animal Farm.*

Ar 23 Tachwedd 2017, gosododd dirprwyaeth o lysgenhadaeth yr Wcráin i'r DU dorch o dan y plac i anrhydeddu Gareth Jones yn yr Hen Goleg. Siaradodd y Gweinidog-Gwnsler Andriy Marchenko, a oedd yn arwain y ddirprwyaeth, yn deimladwy â'r staff a'r myfyrwyr a oedd wedi dod ynghyd ynglŷn â distryw'r Holodomor a pharch pobl yr Wcráin tuag at Gareth Jones, a'r rhan a chwaraeodd wrth roi gwybod i'r byd am raddfa'r dioddefaint ymhlith eu cyd-wladwyr o dan Stalin. Roedd nai Gareth Jones, Nigel Colley, a fu farw'n ddiweddar, yn bresennol yn y seremoni, a darllenodd ddarnau o waith ei ewythr a disgrifio prosiect sydd ar y gweill i wneud ffilm yn seiliedig ar ei fywyd.

Mae'r llyfrau nodiadau a ddefnyddiwyd gan Gareth Jones i gofnodi manylion yr hyn a welodd ac a glywodd yn yr Wcráin adeg distryw'r newyn wedi'u cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac mae modd trefnu apwyntiad i fynd i'w gweld.




*Cymdeithas Lenyddol a Dadlau CPC 1923-24; mae Gareth Jones yn y rhes ganol yn y pen pellaf ar y dde.*



# CHARMIAN GOOCH

## CYD-SEFYDLWR A CHYFARWYDDWR GLOBAL WITNESS

*Cyfweliad gan John Gilbey*

*Mae John Gilbey (gilbey@bcs.org.uk) yn ysgrifennwr ar wyddoniaeth ac yn ffotograffydd sy'n byw yn Aberystwyth.*



*Charmian Gooch yw un o sefydlwyr a chyfarwyddwyr Global Witness, corff ymgyrchu anllywodraethol sy'n ymladd yn erbyn llygredd, ac o blaid hawliau dynol a'r amgylchedd ers 1992. Yn 2014 enillodd Wobr TED iddi hi'i hun ac i Global Witness, a chyda'r ddau gyd-sefydlwr arall, mae hefyd wedi ennill Gwobr Menter Gymdeithasol Skoll. Mae wedi'i henwi hefyd ar restr 50 Unigolyn Mwyaf Dylanwadol Bloomberg Markets.*

Cartref anarferol i grŵp ymgyrchu amgylcheddol yw bloc o swyddfeydd â waliau gwydr ar ymylon dwyreiniol Dinas Llundain, efallai, ond fe ddaeth hi'n amlwg bod y swyddfa hon ychydig yn wahanol. Wrth i fi sipian coffi ffres a chryf, a'm sadio fy hun ar ôl pendro'r daith i fyny saith llawr yn y lifft - muriau gwydr sydd i'r lifftiau hefyd - roedd y gwrthgyferbyniad rhwng y celfi safonol corfforaethol a'r hen fyrddau ffreutur pren a'r soffas dyfnion yn taro nodyn braidd yn Google-aidd. Dyma gorff sy'n gweithio o fewn y drefn ond eto heb fod yn rhan ohoni. Roedd y swyddfa wedi'i chael fel bargen ar ddiwedd prydles, ac wedi'i haddasu'n gynnil i gydweddu â diwylliant y sefydliad.

Fe'm hebryngwyd i'r ystafell gyfarfod, a roddai olygfeydd trawiadol dros y ddinas, gan Charmian Gooch, sydd yn un o gyfarwyddwyr Global Witness ac un o'r tri a sefydlodd y corff. A hithau wedi cael gradd Hanes yn Aberystwyth, ac yn Gymrawd er Anrhydedd ers 2016, gofynnais iddi pam y dewisodd ddod i Aber.

> " allwch chi ddim deall y presennol yn iawn heb ddeall y gorffennol "

"Roedd gen i ddiddordeb mawr mewn hanes celf, ac roedd gan y brifysgol adran gelf dda iawn. Yr adeg honno roeddwn i'n meddwl sut y gellid gwirioneddol ysbrydoli pobl am eu hanes drwy ddefnyddio hanes celf. Ond fe ddaeth hi'n amlwg iawn imi, yn ystod y flwyddyn gyntaf, mai'r hanes yn hytrach na'r celf oedd yn bwysig i mi. Tueddai fy nhraethodau i beidio â sôn cymaint am y paentiad penodol dan sylw, ond yn hytrach pam y paentiodd yr artist y llun, beth oedd yn digwydd yng ngwleidyddiaeth y wlad ar y pryd - pam, a sut, roedd delweddau'n cael eu defnyddio.

"Ces i ysbrydoliaeth fawr gan lyfr John Berger, *Ways of Seeing* - ond hefyd roedd rhai darlithwyr hanes gwych yn Aberystwyth, ac fe fues i'n ddigon ffodus i ddod o hyd iddyn nhw. Fe ganolbwyntiais yn fwyfwy ar yr hanes, ac felly yn y pen-draw, Hanes a ddewisais.

"Y peth mawr am y cwrs yn Aberystwyth oedd eich bod chi'n gallu archwilio gyda'r cwrs, ac roedd y cwrs hanesyddiaeth yn wych - cyfle i ddeall faint mae astudiaethau hanes wedi newid gyda'r canrifoedd, a sut mae'n dibynnu ar ble rydych chi'n sefyll. Doedd dim byd yn absoliwt. Sut roedd gwahanol bobl wedi defnyddio hanes, wedi camddefnyddio hanes, pam roedden nhw'n ysgrifennu hanes... roedd hi'n ysbrydoliaeth lwyr. Rwy'n falch mai hanes wnes i, ond byddwn i wedi hoffi gwneud rhyw bum pwnc arall hefyd!"

Mae gan Charmian atgofion da iawn am ei hamser fel myfyrwraig yn Aberystwyth.

"Roedd hi'n brifysgol wirioneddol gyfeillgar, roedd y llyfrgell yn wych - yn lle gwych i weithio gydag adnoddau gwych - *yn ogystal â'r* Llyfrgell Genedlaethol, roedd hi'n anhygoel. Roeddwn i wrth fy modd yn crwydro'r silffoedd, a chodi llyfrau diddorol ar hap - a dyna fan cychwyn fy niddordeb yng Nghambodia, ac fe arweiniodd hynny yn y pen-draw at sefydlu Global Witness. Ysgrifennodd Francois Ponchaud, offeiriad o Ffrainc, lyfr am 'Flwyddyn Sero' Cambodia - pan gipiodd y Khmer Rouge rym ym mis Ebrill 1975 - a'r hyn a ddigwyddodd wedyn. Roeddwn i i fod i ysgrifennu traethawd, ond rwy'n meddwl mai eistedd ar y llawr a wnes i a darllen y llyfr yn y fan a'r lle."

Gellir gweld hanes, yn ôl Charmian, fel cyfres o wersi a ddysgir.

"O'm rhan i, roedd hi'n ymwneud â sut mae'r presennol wedi'i lunio gan y gorffennol, ac allwch chi ddim deall y presennol yn iawn heb ddeall y gorffennol - ac roedd hynny'n rymus iawn i mi. Gallwch fynd i rywle os yw'r dystiolaeth yno - mater i chi yw dod o hyd iddi, a'i phwyso a'i mesur, a gofyn 'beth mae'n ei ddweud wrthyf i mewn gwirionedd?' Ac wedyn fe luniwch y darlun gan ddefnyddio adnoddau manwl

iawn. Mae fel carped hud, gallwch fynd i rywle ond mae'n rhaid i chi ddod o hyd i'r wybodaeth - rhaid i chi roi sylfaen gref i'r datganiadau neu'r safbwynt rydych chi'n eu harddel. Dyna beth mae Global Witness yn ei wneud, a dyna ein nod yma. Defnyddiwn astudiaethau achos manwl i greu newid sylweddol yn y tymor hir, ac mae angen edrych ar ryw fater megis o'r newydd a'i ddadansoddi'n drylwyr."

Pan oedd Charmian yn Aberystwyth bu farw ei mam yn sydyn, ac fe wnaeth hynny, ynghyd â'r gefnogaeth a gafodd gan ei darlithwyr, argraff fawr arni.

"Roeddwn i'n gwybod nad rhyw ffatri anferth yn cynhyrchu nwyddau unfath oedd Aberystwyth... treuliais gryn dipyn o amser yn syllu allan drwy'r ffenestri yng Nghwrt Mawr ar frig y campws, yn ceisio deall beth oedd pwynt popeth. Yn y diwedd penderfynais mai gwneud rhywbeth defnyddiol â'm bywyd yr oeddwn i am ei wneud."

Sut llwyddodd hi i wireddu'r penderfyniad hwnnw yn ymarferol?

> mae'r rhaglen yn wych o ran myfyrwyr yn gwella eu cyfleoedd o gael swyddi.

"Yn hollol ddamweiniol! Fy nghynllun, ac fe wyddoch sut beth yw byrbwylltra ieuenctid, oedd bod grwpiau amgylcheddol ar y pryd yn iawn, ond pregethu i'r cadwedig yr oedden nhw. Felly penderfynais y byddwn i'n gweithio ym maes cysylltiadau cyhoeddus, dysgu 'arbenigedd' cysylltiadau cyhoeddus, a mynd â'r sgiliau hynny i'r sector Gwyrdd."

Ond nid felly y bu, yn union. Cafodd gynnig swydd gan gwmni mawr ym maes cysylltiadau cyhoeddus, ond cymerodd doriad cyflog 50% i gymryd swydd cyfnod byr gyda'r Asiantaeth Archwilio Amgylcheddol (EIA).

"A dyna'r man cychwyn. Y lle iawn ar yr adeg iawn... fe fues i'n lwcus iawn, iawn. Roeddwn i yno am bum neu chwe blynedd, ac yno fe gwrddais â dau gyd-sefydlwr arall Global Witness. A minnau â gradd mewn hanes, gofynnwyd i mi edrych ar y fasnach ryngwladol ar ifori, a rhoi fy marn - a minnau heb unrhyw gymwysterau amlwg am y gwaith. Gallwn i weld bod y fasnach yn hollol agored i gael ei chamddefnyddio, roedd yno wyngalchu arian, roedd y drefn yn llawn tyllau - ac roedd fy mhrofiad o gael gafael ar wybodaeth, o ddod o hyd i wybodaeth, yn help mawr."

Deilliodd Global Witness o'r awydd i ledu ymgyrchoedd EIA yn ehangach er mwyn cynnwys mwy o agweddau ar lygredd.

"Yn gall iawn, roedden nhw'n awyddus i ganolbwyntio ar eu maes eu hun. Felly yn y diwedd, dyma ni'n dweud, iawn, fe wnawn ni hyn felly. Roedden ni'n gallu gweld yn glir bod y grwpiau amgylcheddol yn gwneud gwaith gwych ar un trywydd, ac ar drywydd arall roedd grwpiau eraill yn gwneud gwaith bendigedig ar faterion hawliau dynol traddodiadol - ond roedden ni'n gweld yn gyson fod tir yn y canol, lle'r oedd gweithgareddau a oedd yn sathru ar yr amgylchedd yn ariannu gweithgareddau a sathrai ar hawliau dynol. Doedd neb i'w weld yn gweithio arno, a doedden ni ddim yn gallu deall pam. On'd oedd hi'n hen bryd stopio siarad amdano, a cheisio gwneud rhywbeth amdano?

"Rhan o'n patrwm gwaith ni yw ceisio sicrhau bod sefydliadau anllywodraethol eraill yn mabwysiadu'r materion rydyn ni'n gweithio arnyn nhw a'u codi nhw hefyd. Mae llawer o'n gwaith ni wedi dod yn rhan o'r brif ffrwd o ganlyniad, ond dyna sut mae rhywun yn cael y maen i'r wal. Fe welsom ni ein hunan - Global Witness - fel dinasyddion byd-eang. Yn aml iawn ein llywodraeth ni neu ein cwmnïau ni oedd yn gwneud pethau gwirioneddol wael - ac felly roedd hi'n rhyw ymdeimlad o gymryd cyfrifoldeb a dyna, am wn i, oedd ein mandad ni.

"Lle rydyn ni'n gwneud cyfraniad ychwanegol yw peidio â bod ofn gofyn cwestiynau sydd, yn ôl rhai pobl, braidd yn ddiniwed efallai, megis 'Mae diemwntau'n cael eu defnyddio i ariannu rhyfeloedd... Onid yw hynny'n beth gwael iawn?' Mae'n ymwneud â newid sut mae pobl yn gweld materion a meddwl amdanyn nhw, ac mae hynny'n rhan fawr o'r hyn a wnawn ni yn Global Witness – edrych ar y fframwaith sylfaenol hirsefydlog sydd y tu ôl i lygredd ac ymladd. Gall gymryd blynyddoedd maith weithiau cyn i ni lwyddo."

Erbyn hyn mae gan Global Witness gant o staff a rhyw ugain o ymgyrchoedd cyfredol.

"Ar y cychwyn roedd tri o bobl oedd yn rhannu gweledigaeth, ond erbyn hyn mae gennyn ni dîm o bobl anhygoel. Nid 'Sioe Charmian, Patrick a Simon' mohoni bellach, felly Global Witness yw awdur yr adroddiadau erbyn hyn, nid unigolion. Rydyn ni'n ceisio sicrhau mai'r sefydliad sy'n bwysig ac mai'r bobl orau posib yn cael eu cyflogi. Mae gennyn ni bobl anhygoel ac rydyn ni'n ceisio rhoi digon o le iddyn nhw fel y gallen nhw fynd allan a gwneud y gwaith."

Gan fod amser ein cyfweliad bron ar ben, gofynnais i Charmian a gredai y byddai angen sefydliadau fel Global Witness am byth - ynteu a fydd gwell rheoliadau yn golygu na fydd eu hangen bellach.

"Yn anffodus fe fydd eu hangen. Achos, yn fy marn i, bydd angen craffu ar y cyrff rheoleiddio agored hynny, ac angen ymchwilio iddynt, o gofio'r natur ddynol. Mae pobl mewn cyrff anllywodraethol i fod i ddweud, "rydyn ni'n anelu at sefyllfa lle nad oes ein hangen ni, ac rydyn ni'n awyddus i'n rhoi ein hunan allan o fusnes." Wel, wrth gwrs, mae hynny'n wir, ond yn drist iawn, y gwir amdani yw fe fydd angen corff fel Global Witness am amser hir iawn eto. Rwy'n credu bod hanes yn dangos inni fod modd newid pethau er gwell, ond ei bod hi'n wirioneddol anodd. Dyw hynny ddim yn golygu na ddylech chi ymdrechu dros newid, a'r peth mwyaf buddiol i'r ddynoliaeth fyddai synnwyr o wyleidd-dra."

Wrth i mi adael Global Witness, sylwais ar lond mur o luniau wedi'u fframio yn y cyntedd. Wedi'u trefnu fel portreadau teuluol, mae'r fframiau'n dangos cloriau'r adroddiadau a gynhyrchir gan y corff. Cynhysgaeth sy'n tyfu y gall y sefydlwyr ymfalchïo ynddi.

# Y Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiad Cymdeithasol

## Pwy yw pwy yn PA?

*Yn y rhifyn diwethaf o PROM cawsom olwg ar waith y Tîm Cyswllt Ysgolion a Cholegau. Nawr dyma ddangos gwaith tîm prysur arall, sydd â rhan hanfodol i'w chwarae yn llwyddiant y Brifysgol.*



*O'r chwith i'r dde: Dr Debra Croft (Cyfarwyddwr), Sioned Wyn (Gweinyddydd y Ganolfan), Rachel Rees (Hwylusydd Gweithdai Gwyddoniaeth), Hannah Clarke (Cydlynydd y Prosiect Ehangu Mynediad), Dr Kris Lovell (Cydymaith Cymorth y Prosiect), Jack Shaw (Arddangoswr Gweithdai Gwyddoniaeth)*

> "mae tua 83% o'r myfyrwyr sydd wedi cwblhau Prifysgol Haf Aberystwyth yn llwyddiannus wedi mynd ymlaen i Addysg Uwch."

Sefydlwyd y Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiad Cymdeithasol yn agos i ugain mlynedd yn ôl, er mwyn datblygu ymrwymiad hirsefydlog y Brifysgol i ehangu mynediad i grwpiau o bobl nad ydynt yn draddodiadol wedi cael cynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch.

Mae'r Ganolfan yn gweithio i chwalu rhwystrau at Addysg Uwch, boed y rheini'n ffisegol, cymdeithasol, diwylliannol neu ariannol. Mae'n cefnogi pobl o bob oed, o blant ysgol i oedolion.

Un o uchafbwyntiau gwaith y Ganolfan gydag ysgolion yw Ffair Wyddoniaeth y Brifysgol a drefnir bob mis Mawrth i nodi Wythnos Gwyddoniaeth Prydain. Mae'r arddangosfa'n caniatáu i ddisgyblion ysgol brofi gwyddoniaeth drwy weithgareddau ymarferol difyr a diddorol, gyda thros 1,750 o ddisgyblion, athrawon ac ymwelwyr yn dod bob blwyddyn.

Mae'r Ganolfan hefyd yn rhedeg rhaglen breswyl i ddisgyblion Blwyddyn 10 o Geredigion, Powys, Gwynedd, a Sir Gaerfyrddin. Mae rhaglen Archwilio Pynciau'n cynnig cipolwg ar bynciau y tu hwnt i TGAU, ynghyd â blas o fywyd Prifysgol a helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau clir am eu dyfodol.

Y Ganolfan hefyd sy'n trefnu rhaglen bwysig Prifysgol Haf Aberystwyth. A hithau bellach wedi cwblhau ei 17eg flwyddyn, mae'r rhaglen breswyl chwe wythnos hon o ddarlithoedd, ymchwil a chyflwyniadau yn ogystal â gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasol yn efelychu bywyd Prifysgol mor realistig â phosibl, a'r penllanw yw seremoni 'raddio' gyffrous yn y Neuadd Fawr yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Ers 2012, mae tua 83% o'r myfyrwyr sydd wedi cwblhau Prifysgol Haf Aberystwyth yn llwyddiannus wedi mynd ymlaen i Addysg Uwch.

Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig cymorth i fyfyrwyr, er mwyn cynyddu cyfraddau cadw a chyflawniad y rhai sy'n fregus, fel rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc a myfyrwyr eraill sydd heb gefnogaeth.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.aber.ac.uk/cy/widening-participation




# Y FORD GRON

*Yn Rhifyn 24 PROM, tynnwyd sylw at haelioni aruthrol Peter Hancock a Pat Pollard (née Trevitt) a sefydlodd Cronfa Ysgoloriaethau Peter Hancock er mwyn i fyfyrwyr ar eu blwyddyn olaf yn Aber, sydd angen cymorth ychwanegol er mwyn gwireddu eu potensial yn llawn, nid yn unig gael cymorth ariannol ond hefyd gael eu mentora gan weithwyr proffesiynol profiadol a chael cefnogaeth gan grŵp agos o gymheiriaid. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Ysgoloriaethau Hancock yn 2016/17 mewn cinio ym mis Chwefror 2017 er mwyn meithrin ymdeimlad o gydberthyn ymhlith y deilyddion yr ysgoloriaeth, cael clywed eu barn a rhoi gwybod iddynt am y cymorth sydd ar gael drwy haelioni Peter a Pat.*



*Dyma Elena Zolotariov, Deilydd Ysgoloriaeth Hancock, yn rhannu ei sylwadau am y noson.*

Dywedodd Plutarch yn *Parallel Lives*, "Nid llestr i'w lenwi mo'r meddwl, ond tân i'w gynnau." Yr hyn a wnaeth yr argraff fwyaf arnaf y noson honno oedd cyrraedd a chwrdd â deiliad yr ysgoloriaeth eraill. Roeddwn wedi cwrdd â nhw o'r blaen ond nid mewn awyrgylch mor glyd (dyna sut le oedd y bwyty a ddewiswyd ar ein cyfer, mewn lleoliad godidog uwchben y môr). Pan gerddais i mewn a'u gweld am y tro cyntaf, sylwais fod golwg sionc, gynnes, eiddgar a chroesawgar ar bawb. Roedden nhw eisoes wrthi'n gytûn yn trafod eu hoffterau a'u gobeithion at y dyfodol, wedi ymgolli yn eu dyheadau, a'u cyffro llawen yn tystio i'w penderfyniad ac yn datgan yn hyderus, "Fe allaf i wneud hyn". Roedden nhw mor sicr o hynny, fel pe na bai dim byd arall yn bwysig, fel pe na bai dim byd arall y byddai'n well ganddyn nhw ei wneud. Yna, wedi sylwi fy mod wedi cyrraedd, edrychodd pawb tuag ataf yn llawn anogaeth, yn cyfleu dim ond cysur a sicrwydd diysgog. Yna, roeddwn innau'n gwybod y gallwn wneud hyn hefyd. Roedd rhyw lewyrch llawn prydferthwch iddynt, a'u hieuenctid yn fy swyno a'm rhyfeddu. Crwydrodd fy meddwl drwy'r holl bosibiliadau, at y tro cyntaf y cwrddais â nhw a sut deimlad oedd cael clywed am y tro cyntaf y byddem yn rhan o Ysgoloriaeth a fyddai'n cynnig mentora ac arweiniad i ni. Roeddem yn swil, yn dawel, yn llai llafar ein barn. Cofiaf feddwl: all hyn fod yn wir? Pam ddylai fy marn i fod yn bwysig? Ac eto, y noson honno, roedd yr angerdd a'r tân yn ein boliau'n ein huno, ac felly hefyd ymroddiad sylfaenwyr yr Ysgoloriaeth, Peter a Pat, i sicrhau ein bod yn credu yn ein gweledigaeth ein hun, yn ein llais ein hun. Roedd eu llais yn arweiniad i ni; wnaethon nhw erioed ddatgan, dim ond gofyn a herio, hyd heddiw.

Rydym yn cwyno am gymdeithas yn aml. Mae'n ddiffygiol mewn rhyw ffordd, nid yw'n buddsoddi digon mewn addysg, does dim digon o ots ganddi am ei phobl. Mae'n ddigon gwir fod cymdeithas yn amherffaith, ac felly y bydd hi – yr un mor amherffaith â'i phobl. Ond yr hyn a ddysgais y noson honno yw nad felly y mae'n rhaid i bethau fod. Gall cymdeithas fod cystal â'i phobl, cystal â'r gweledigaethau sydd gan ei phobl. Wedi'r cwbl, man cychwyn Aberystwyth oedd ceisio ailgynnau goleuni deallusrwydd yng nghalon y gymuned. Os yw Prifysgol Aberystwyth yn bodoli, mae'n bodoli oherwydd ei phobl a'u hangerdd tuag at addysg, lledaenu gwybodaeth a'r gwirionedd sylfaenol na all yr unigolyn fod yn wirioneddol hapus heb i'r gymdeithas hithau ffynnu. Felly, erbyn diwedd y noson, roedd fy ofnau plentynnaidd wedi troi'n agosatrwydd hoffus; doedden ni ddim ar ein pen ein hunain mwyach, yn cychwyn ar ein taith ddeallusol; roeddem yn perthyn. Dyma un o nifer o bethau y mae Ysgoloriaeth Hancock yn eu cynrychioli; mae'n ein hatgoffa o'r hyn y mae'r myfyrwyr yn medru'i wneud, o'r anogaeth sydd ei hangen ar y meddwl. Mae pob un ohonom yn cydnabod mai ychydig a wyddom ond dyw hynny ddim yn ein rhwystro rhag ceisio diwallu ein chwant am wybodaeth. Yn wir, mae'n ein cymell i ymchwilio'n ddyfnach i ryfeddodau'r byd, ac yn fy achos i, i ryfeddodau'r galon ddynol.

**Elena Zolotariov**
**2016-17 Deilydd Ysgoloriaeth Hancock a myfyrwraig Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol ar ei blwyddyn olaf**

# Aber Dramor

*Mae cefnogaeth ein cyn-fyfyrwyr rhyngwladol yn dal i dyfu a'r gefnogaeth honno'n canolbwyntio ar nifer o weithgareddau hollbwysig, o gynorthwyo â digwyddiadau denu myfyrwyr i feithrin cysylltiadau â'n partneriaid rhyngwladol, codi ein proffil a'n henw da a chroesawu academyddion gwadd.*

Rydym yn ddiolchgar i'n deg ar hugain o Gynrychiolwyr Rhyngwladol (www.aber.ac.uk/en/development/alumniprofiles/internationalalumni) sy'n rhoi o'u hamser i helpu i gryfhau a meithrin cyswllt â chymuned ein cyn-fyfyrwyr er mwyn cefnogi ein cynlluniau. Yn 2017, cawsom gyfle i ddathlu cyfarfod cinio cyntaf rhwydwaith newydd ein cyn-fyfyrwyr yn Nigeria. Diben y rhwydwaith hwn yw sefydlu llwyfan i rwydweithio, datblygu partneriaethau strategol a rhaglenni ar y cyd a chefnogi uchelgais a chyrhaeddiad rhyngwladol y Brifysgol. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno, cysylltwch ag Echika Ugwuoju (nasescoba@gmail.com) neu Dr Akanimo Odon (ako1@aber.ac.uk).

Mae ein myfyrwyr yn parhau i elwa ar roddion gan gymuned ein cyn-fyfyrwyr rhyngwladol ac rydym yn hynod ddiolchgar i'n cyn-fyfyrwyr am eu haelioni. Mae'r arian a godwyd wedi cyfrannu at grantiau i fyfyrwyr gael mynd ar ymweliadau 'unwaith mewn oes' dramor ar brosiectau'n amrywio o ymweliad â Yosano, Siapan dan ofal yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, i'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu a'r ymweliad â Gŵyl Ffilmiau Tribeca. Bwriadwn gynnig mwy o'r grantiau hyn i'n myfyrwyr gyda chymorth yr arian a godir ymhlith ein cyn-fyfyrwyr a'r cyfleoedd y mae ein cyn-fyfyrwyr yn eu cynnig i ni drwy eu gwaith a'u cysylltiadau proffesiynol a phersonol.

Os hoffech gael gwybod sut i gefnogi ein gwaith rhyngwladol neu os hoffech gynnig rhodd o dramor, cysylltwch â Hayley Goddard (Swyddog Rhoddion Unigol) ar 01970 622083 neu hvg@aber.ac.uk

### Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn a aeth heibio hefyd mae:

## Efrog Newydd a Washington DC

Dathlwyd canmlwyddiant Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn ein derbyniadau blynyddol poblogaidd ym mis Mehefin i gyn-fyfyrwyr a chyfeillion yn Efrog Newydd a Washington DC. Llwyddodd Cyfarwyddwr yr Athrofa, yr Athro Neil Glasser, i ennyn brwdfrydedd ac ysbrydoli'r cynulleidfaoedd yn y ddau ddigwyddiad wrth iddo sôn am ei daith yn 2017 i Len Iâ Dwyrain yr Antarctig yn rhan o astudiaeth ryngwladol o effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yn ymuno â'r ddirprwyaeth yn 2017 roedd un o'n graddedigion Daearyddiaeth, Kyle Adams, a enillodd gystadleuaeth wedi'i hariannu gan gyn-fyfyrwyr i gwrdd â chyn-fyfyrwyr yn y ddwy ddinas, ac i gymryd rhan yn ein rhaglen drwy siarad am effaith yr adran a'r Brifysgol ar ei fywyd.

Mae'r Brifysgol yn ddiolchgar i'r cyn-fyfyriwr Andy MacDonald am gynnal ein derbyniad yn Efrog Newydd yn ei swyddfeydd yn Wells Fargo, ac i Amgueddfa'r Gymdeithas Ddaearyddiaeth Genedlaethol yn Washington DC am fod mor hael â darparu ei Hystafell Gyfarfod breifat a hanesyddol ar gyfer darlith Neil i nodi canmlwyddiant yr adran.



*Derbyniad i gyn-fyfyrwyr a chyfeillion yn Efrog Newydd*





Derbyniad i gyn-fyfyrwyr a chyfeillion yn Washington DC



Noson agored cyn-fyfyrwyr Maleisia



Mae'r Ustus Belinda Ang Saw Ean yn farnwr yng Ngoruchaf Lys Singapôr ac enillodd radd Bagloriaeth yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ym 1976.




Ymweliad â'i Fawrhydi Brenhinol ym Maleisia

## Maleisia

Anrhydedd i'r Brifysgol oedd cael bod yn bresennol mewn derbyniad gerbron Ei Fawrhydi Tuanku Muhriz, Cymrawd er Anrhydedd yn ei balas yn Kuala Lumpur ym mis Tachwedd 2017. Ei Fawrhydi Tuanku Muhriz oedd Llywydd a sylfaenydd Clwb Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ym Maleisia. Cynhaliwyd y digwyddiad i ddathlu'r cysylltiadau agos rhwng y Brifysgol a'r Clwb, a chefnogaeth hirsefydlog Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr i'r berthynas hon. Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i ddiolch i Lywydd ymadawol y Clwb a Chymrawd er Anrhydedd 2017 Dato Sharil Bin Mohamed Tarmizi am ei gefnogaeth a diolch i'r Llywydd newydd Nasharuddin am ymgymryd â'r swydd am yr eildro. Mae'r Brifysgol yn ddiolchgar i aelodau'r Clwb am eu cymorth parhaus ac amhrisiadwy gyda'n gwaith i ddenu myfyrwyr, gan gynnwys mewn Noson Agored i ddarpar fyfyrwyr a'u teuluoedd yn TPC Kuala Lumpur gyda chydweithwyr o Athrofa Busnes a'r Gyfraith.

## Singapôr

Cynhaliwyd aduniad i gyn-fyfyrwyr ym mis Tachwedd wrth i ni barhau i ddatblygu ein cysylltiadau â chyn-fyfyrwyr yma a'u rhwydweithiau. Un o uchafbwyntiau nodedig y daith oedd cael cyfle i gwrdd â'r Ustus Belinda Ang yn y Goruchaf Lys, cyn-fyfyrwraig yn Adran y Gyfraith (1976).

Gyda thristwch mawr, cyhoeddwn fod Gareth Howell wedi marw ym mis Ionawr 2018. Mae Gareth i'w weld yn y llun o Washington DC a hefyd yn yr erthygl ar ddyfarnu Cymrodoriaethau er Anrhydedd. Roedd Gareth yn ŵr ysbrydoledig, yn eiriolwr brwd dros Brifysgol Aberystwyth ac yn gyfaill da i'r tîm Datblygu a Chysylltiadau Alumni a Chymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Rhoddodd yn hael o'i amser a'i gysylltiadau i gefnogi ein gwaith a bydd colled fawr ar ei ôl. Mae ei wraig Amy a'i feibion Rhys a Llewelyn yn ein meddyliau ni oll ar yr adeg drist hon ac wrth i ni baratoi i ddathlu bywyd Gareth, ei yrfa nodedig a'i gyfraniad i Aberystwyth gyda'i deulu a chyda chyfeillion a chyn-fyfyrwyr yng Ngŵyl Gymreig Gogledd America ym mis Awst 2018.

**Louise Jagger**
**Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni**

# Bywyd Newydd i'r Hen Goleg





*Eleni rydym wedi cyrraedd carreg filltir bwysig yn ein hymdrechion i wireddu ein gweledigaeth i roi bywyd newydd i'r Hen Goleg ar ei newydd wedd mewn pryd i ddathlu ein pen-blwydd yn 150 mlwydd oed yn 2022.*

Wedi i Gronfa Dreftadaeth y Loteri gyhoeddi y bydd yn rhoi Cyllid Datblygu i'r prosiect rydym bellach wedi symud ymlaen i'r cam nesaf. Diolch i Grant Datblygu o £850,000 gan y Gronfa Dreftadaeth sefydlwyd Tîm Dylunio newydd, gan gynnwys penseiri ac arbenigwyr eraill, a fydd yn gweithio law yn llaw â thîm y Brifysgol a'r Bwrdd Prosiect i greu cynlluniau a chynigion mwy manwl dros y deuddeg i ddeunaw mis nesaf. Mae llawer iawn o waith ymgynghori a chysylltu i'w wneud eto dros y cyfnod nesaf hwn, ynghyd â'r gwaith hollbwysig o ddod o hyd i £10m yn rhagor drwy grantiau a chodi arian cyfatebol i'r cyfraniad llawn o £10.5m gan y Gronfa Dreftadaeth.

Gallwch weld ein cynlluniau yn www.aber.ac.uk/cy/oldcollege/future-plans. Mae Jim O'Rourke, ymgynghorydd rheoli prosiectau profiadol iawn, ac un o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a chyn Lywydd Undeb y Myfyrwyr (1977-78), bellach yn ein cynorthwyo â'r gwaith hwn. Mae ei brofiad o weithio ar brosiectau mawr yn ychwanegol at yr amser gwerthfawr sy'n cael ei neilltuo gan gydweithwyr yn adrannau proffesiynol ac academaidd y Brifysgol.

Cafodd y newyddion y bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri'n cefnogi'r gwaith i ailwampio'r Hen Goleg groeso cynnes ac mae'r Brifysgol wedi derbyn llawer o negeseuon caredig o gefnogaeth oddi wrth gyn-fyfyrwyr o bedwar ban byd ynghyd â nifer o roddion hael. Rydym wedi bod yn cwrdd â chyn-fyfyrwyr yng Nghaerdydd, Llundain, Maleisia a Singapôr wrth i ni ddechrau estyn allan at gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr sydd efallai wedi'u hysbrydoli i gefnogi'r cynllun. Rydym yn ddiolchgar hefyd am gymorth ein cyn-fyfyrwyr i gysylltu ag ymddiriedolaethau a sefydliadau o bwys sy'n dyfarnu grantiau.

Mae cynnwys y gymuned ynghyd â'r Brifysgol a chyn-fyfyrwyr yn ein gweithgareddau ac wrth ddatblygu'r cynlluniau yn flaenoriaeth uchel. Er enghraifft, arweiniodd cydweithwyr o Glwb Roboteg y Brifysgol weithdy 'Hacio'r Bwmpen' i bobl ifanc leol yn yr Hen Goleg adeg Calan Gaeaf, gweithgaredd a oedd yn cyfuno creadigrwydd â chyfle i ddatblygu sgiliau rhaglennu cyfrifiadurol. Yn sgil yr arddangosfa Etifeddiaeth Jwrasig boblogaidd y llynedd, rydym yn cynnal arddangosfa arall mewn partneriaeth ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru'n seiliedig ar waith Alfred Russell Wallace, y naturiaethwr Fictoraidd sy'n



adnabyddus am lunio damcaniaeth esblygiad drwy ddethol naturiol yn annibynnol ar Charles Darwin, a oedd yn un o'i gyfoedion. Yn yr un modd ag arddangosfa'r Etifeddiaeth Jwrasig, mae rhaglen yr arddangosfa'n cynnwys amryw o weithgareddau a sgyrsiau gan academyddion blaenllaw yn y Brifysgol. Rydym hefyd yn trafod syniadau ar gyfer gweithgareddau ar y cyd â'r Llyfrgell Genedlaethol a Gŵyl y Gelli.

Rwy'n falch o allu dweud bod ein cyn-fyfyrwyr yn dal i chwarae rhan flaenllaw yn y prosiect hwn. Mae Steve Lawrence, cyn Lywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, yn parhau i gynrychioli'r Gymdeithas fel aelod o Fwrdd Prosiect yr Hen Goleg ac mae'n eiriolwr brwd dros y cynllun. Mae canghennau Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr yng Nghaerdydd ac Aberystwyth yn hynod weithgar mewn nifer o brosiectau gan gynnwys digideiddio cofnodion cynharaf y Brifysgol a sefydlu Gorsaf Dreftadaeth Ddigidol. Mae Apêl yr Hen Goleg hefyd wedi derbyn rhoddion hael gan gyn-fyfyrwyr yn rhyngwladol. Dyma ddim ond rhai o gyfraniadau gwerthfawr ein cyn-fyfyrwyr yng Nghymru ac ym mhob cwr o'r byd drwy godi arian a gwirfoddoli.

Er ein bod yn llawn cyffro ynghylch y cyfle i ddatblygu'r cynlluniau ac estyn allan at nifer cynyddol o bobl, rydym yn ymwybodol iawn hefyd fod y nod o ran codi arian yn un uchelgeisiol. Bydd angen i ni sicrhau ymrwymiadau i'r targed o £10m cyn i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ystyried ein cyflwyniad nesaf yn gynnar yn 2019. Wedi dweud hynny, allwn ni ddim peidio â chael ein hysbrydoli gan yr hyn a gyflawnwyd gan ein Sylfaenwyr a chan y gefnogaeth hael y mae wedi bod yn fraint gan y Brifysgol ei derbyn nid yn unig yn y blynyddoedd cynnar anodd hynny ond drwy gydol ei hanes balch. Os gallwn alw unwaith eto ar y gefnogaeth honno i wireddu ein dyhead i ailwampio ac ailddiffinio'r Hen Goleg, byddwn wedi helpu i ddiogelu'r etifeddiaeth unigryw honno am genedlaethau i ddod.

Os hoffech gyfrannu at yr Apêl ar yr adeg dyngedfennol hon yn ein cynlluniau, ewch i www.aber.ac.uk/oldcollegeappeal. Os hoffech drafod cyfleoedd i roi cymorth hael drwy roi rhodd neu addewid o rodd sylweddol, cysylltwch â Louise Jagger ar lmj23@aber.ac.uk neu 01970 62 1884.

**Dr Rhodri Llwyd Morgan**
**Dirprwy Is-Ganghellor a Chyfarwyddwr y Prosiect**

**Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol**
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# Cymynroddion sylweddol i ymchwil Aber

*Dathlwyd bywydau tri o gefnogwyr arbennig iawn y Brifysgol yn 2017 wedi iddynt wneud cymynroddion hael.*

Datgelodd y Brifysgol fod dwy gymynrodd sylweddol wedi'u derbyn yn hydref 2017. Rhoddodd Eleanor a David James £2m i'r sefydliad, a rhoddodd Margaret Wooloff £400,000.

Gwnaeth Eleanor, un o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth, a'i gŵr David James gymynrodd i'r Brifysgol o £2 filiwn ar gyfer cronfa waddol i ariannu ysgoloriaeth ymchwil i uwchraddedigion sydd â chysylltiadau ag Aberystwyth neu Gymru. Roedd y ddau hefyd yn gyn aelodau o'r staff, wedi cwrdd a phriodi tra oeddent yn gweithio yn y Brifysgol. Roedd Eleanor yn gweithio yn yr adran Mathemateg a David yn gweithio yn yr adran Botaneg Amaethyddol am fwy na 35 o flynyddoedd o'r 1950au hyd nes iddynt ymddeol yn y 1990au. Roedd David hefyd yn Ddirprwy Warden ym Mhantycelyn.

Gadawodd Margaret Wooloff, a fu farw ym mis Hydref 2016, £400,000 yn ei hewyllys i hyrwyddo ymchwil uwchraddedig yn y Brifysgol. Graddiodd Margaret mewn Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ym 1943 ac arhosodd yma i wneud cwrs tystysgrif addysg i raddedigion. Dechreuodd ei gyrfa'n dysgu ym Mharis ar ôl y rhyfel. Ar ôl dod yn ôl i Gymru, daeth yn Brifathrawes ar Ysgol Ramadeg y Frenhines Elizabeth i Ferched yng Nghaerfyrddin, lle'r arhosodd am 20 mlynedd. Cadwodd Margaret ei chysylltiad ag Aberystwyth ac roedd yn aelod gweithgar o Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr y Brifysgol.

Cyhoeddwyd y cymynroddion yn ystod digwyddiad blynyddol Sylfaenwyr y Brifysgol, sy'n adleisio'r dathliadau a gynhaliwyd yn y dref yn ôl ym mis Hydref 1872 pan gyrhaeddodd y myfyrwyr cyntaf yr Hen Goleg.

Talodd Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, yr Athro Elizabeth Treasure, deyrnged i Eleanor a David ac i Margaret



*Teulu a chyfeillion y ddiweddar Margaret Wooloff yn ymuno â myfyrwyr, staff ac chyn-fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth i nodi ei chymynrodd hael i'w chyn brifysgol.*



*Yr uwchraddedigion Ben Hulme a Keziah Garratt-Smithson, 3ydd a 4ydd o'r chwith yn y llun, yw'r myfyrwyr cyntaf i elwa ar y gronfa waddol a sefydlwyd â chymynrodd y diweddar Eleanor a David James.*

Wooloff: "Mae'n briodol iawn mai'r cymynroddion arbennig iawn hyn oedd canolbwynt Diwrnod y Sylfaenwyr eleni. Maent yn ein hatgoffa bod y Brifysgol wedi cael cefnogaeth o'r cychwyn cyntaf drwy haelioni pobl Cymru a thu hwnt.

"A hwythau'n aelodau hir eu gwasanaeth o'r staff, gwnaeth David ac Eleanor James gyfraniad eithriadol i fywyd y Brifysgol drwy eu hymchwil, eu dysgu a'u hysgolheictod. Mae eu hetifeddiaeth yn parhau drwy gyfrwng y gymynrodd hynod hael hon a fydd yn galluogi myfyrwyr PhD am genedlaethau i ddod i geisio rhagori yn eu maes a hybu ymhellach gryfderau academaidd y Brifysgol arbennig hon. Yn athrawes ac yn brifathrawes, treuliodd Margaret Wooloff ei bywyd yn hyrwyddo addysg cenedlaethau o bobl ifanc. Byddwn yn sicrhau bod ei gwaith oes yn parhau wrth i'w rhodd hael gynorthwyo ymchwilwyr yn gynnar yn eu gyrfa ym Mhrifysgol Aberystwyth i geisio creu effaith ar Gymru a'r byd. Roeddent ill tri'n aelodau gweithgar o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr a diolchwn iddynt am eu cefnogaeth yn ystod eu bywydau ac am eu cyfraniad drwy eu cymynroddion i lwyddiant parhaus Prifysgol Aberystwyth."

Mae'r Brifysgol yn ddiolchgar i'r holl gyn-fyfyrwyr a chyfeillion sydd wedi rhoi gwybod i ni eu bod wedi addo cymynrodd yn eu hewyllysiau i'r Brifysgol. Mae pob un o'r cymynroddion hyn yn galluogi'r Brifysgol i ddatblygu ei chryfderau a hybu ei henw da ym mhedwar ban byd drwy gyfleoedd dysgu, addysgu ac ymchwil – o gefnogi ymchwil sy'n torri tir newydd a darparu bwrsariaethau ac ysgoloriaethau i fyfyrwyr, i gefnogi ein hadeiladau hanesyddol. Os hoffech gael gwybod sut i gefnogi'r Brifysgol drwy gymynrodd, cysylltwch â Dylan Jones, Cysylltiadau Alumni a Rheolwr Rhoddion Unigol ar 01970 62 1652 neu dej20@aber.ac.uk.

# ADUNIADAU

*Dewch i ymuno â Chymdeithas y Cyn-fyfyrwyr yn ei haduniad blynyddol yn Aber ar 29 Mehefin – 1 Gorffennaf 2018, pan fyddwn hefyd yn cynnal penwythnos i ddathlu canmlwyddiant yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ar Gampws Penglais – mae'r manylion ar gael yn www.aber.ac.uk/cy/development/newsandevents*




## PANTYCELYN (1969-72)

Ym mis Ionawr cafodd criw o gyn-fyfyrwyr Bloc A Pantycelyn 1969-72 aduniad Aber yn Llundain, lle y gwnaeth siaced wreiddiol o waith teiliwr y Brifysgol ymddangosiad!

*O'r chwith i'r dde: Geraint Thomas (Daearyddiaeth), John Evans (y Gyfraith), Chris Newton (Daeareg), Jonathan Arter (y Gyfraith), Billy Bhasin (Amaethyddiaeth).*

## COLEG LLYFRGELLYDDIAETH CYMRU, ABERYSTWYTH (1986-87)

Cyfarfu naw o gyn-fyfyrwyr y Coleg Llyfrgellyddiaeth yn Singapôr am aduniad 30 mlynedd ar 18 Awst 2017. Bu'r criw'n ymweld â mannau o ddiddordeb lleol a llyfrgelloedd cenedlaethol, a chafwyd cinio'r noson honno yng Nghlwb Criced nodedig Singapôr. Ar y crysau-T mae'r geiriau "Librarians Don't Retire, They just get Re-shelved"!

*O'r chwith i'r dde: Ng Chay Tuan, Susanna S Y Tsang, Samantha Ang, Ang Hwee Suan, John Price Jenkins (Celfyddydau Gweledol, 1984), John Kennedy, Ivan Man Tak Wong, Yeoh Seok Kwan, Chung Lee Gok, a Lee Kim Char.*





## ADUNIAD CYN-FYFYRWYR Y 60AU

Daeth dros 50 o gyn-fyfyrwyr a fu'n astudio amrywiaeth o bynciau yng nghanol y chwedegau at ei gilydd mewn aduniad yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth ar 23 Medi 2017 i gymdeithasu, hel atgofion a rhannu straeon am Aber – roedd rhai ohonynt heb weld ei gilydd ers bron i 50 mlynedd!



## FFISEG 1964

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, daeth aelodau o Ddosbarth Ffiseg '64 ynghyd mewn aduniad yn Aber. Ym mis Mehefin 2017, aeth y criw i ymweld â Chanolfan y Dechnoleg Amgen ger Machynlleth, Prosiect Gweilch y Pysgod Dyfi, a mwynhau cinio gyda'i gilydd mewn gwesty ar lan y môr. Os hoffai rhywun o Ddosbarth Ffiseg '64 gysylltu â'r grŵp, cysylltwch â'r swyddfa datblygu ar development@aber.ac.uk neu 01970 62 1568.

# Cronfa Aber BYDD YN RHAN O'N DYFODOL,

*Rhaglen Roddi yw Cronfa Aber, i alumni, rhieni, staff a chyfeillion y Brifysgol, er mwyn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i brosiectau sy'n cyfoethogi profiad a chyrhaeddiad myfyrwyr a chynorthwyo i hyrwyddo uchelgeisiau'r Brifysgol.*



Dylan Jones
*Rheolwr Cyswllt Alumni a Rhoddion Unigol*

Trwy weithio gyda'n cefnogwyr a'n myfyrwyr, y nod yw sicrhau bod pob myfyriwr yn cael cyfle i lwyddo yn Aber ac yn y blynyddoedd ar ôl hynny. Eleni, mae'ch cefnogaeth wedi cyllido nifer mwy nag erioed o fyfyrwyr, mewn partneriaeth ag adrannau, y Ganolfan Chwaraeon, Canolfan y Celfyddydau, a chlybiau a chymdeithasau Urdd y Myfyrwyr - Diolch.

## MEYSYDD ALLWEDDOL I'W CYNORTHWYO...

lliniaru **Caledi Myfyrwyr** | cynorthwyo **Lles Myfyrwyr** | rhoi **Cyfle i Fyfyrwyr**

### DEILIAID CERDYN CREDYD PA (MBNA CYF)




Ers 1994, mae deiliaid cerdyn credyd Prifysgol Aberystwyth wedi codi dros £140,000 tuag at brosiectau myfyrwyr. Wrth i'n perthynas ag MBNA ddod i ben ar 7 Tachwedd 2017, dymunwn ddiolch ichi am eich cefnogaeth deyrngar ryfeddol. Bu'r taliadau a dderbyniwyd oddi wrth MBNA trwy'r cynllun hwn yn gyfraniad gwerthfawr tuag at Gronfa Aber.

### YR YMGYRCH FFÔN ORAU ERIOED

Yn ystod ein Hymgyrch Ffôn yng Ngwanwyn 2017, daeth rhoddion gwerth dros £85,000 i Gronfa Aber o bob rhan o'r byd - mwy nag a ddeilliodd o unrhyw ymgyrch ffôn flaenorol! Rhannodd dros 1,000 o gyn-fyfyrwyr eu hatgofion o Aber â'r tîm gwych o'n myfyrwyr a fu'n ffonio, ac fe sefydlodd bron i hanner y rhoddwyr hynny ddebyd uniongyrchol er mwyn i ni allu cynllunio ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, er mwyn cael yr effaith mwyaf posibl - Diolch!



> Aberystwyth oedd y lle gorau i mi ac fe gefais i gymaint yno - roedd derbyn fy ngwobr adrannol ar ddiwrnod y Graddio yn hwb mawr i fy hyder, ac roedd gwybod bod cyn-fyfyriwr wedi ariannu'r wobr yn gwneud imi deimlo'n rhan o deulu mawr. Rwy'n falch mod i nawr yn gallu cyfrannu'n rheolaidd i roi cyfle i raddedigion y dyfodol dderbyn yr un fath o wobr a chydnabyddiaeth

**Miss Katie Hope**
*(graddiodd yn 2016)*
*Derbynnydd gwobr David Trevena*

## RHOWCH RODD...

Mae rhoi yn hawdd, ac yn hyblyg yn ôl eich dewis chi. Gallwch roi...

- yn rheolaidd trwy ddebyd uniongyrchol, archeb sefydlog, neu o'ch cyflog
- mewn rhodd unigol ar-lein (cerdyn Credyd/Debyd); trwy'r post (siec)
- yn rhyngwladol, trwy gydweithrediad â'n partneriaid
  (e.e. System SWIFT, Y Gronfa Americanaidd i Elusennau)

I wneud rhodd ac i gael rhagor o fanylion ewch i www.aber.ac.uk/aberfund neu cysylltwch â Dylan Jones, 01970 62 1652, dej20@aber.ac.uk

# DIOLCH!

## Adroddiad Blynyddol Rhoddi 2016/17 - Ffeithiau a Ffigurau

*Derbyniwyd rhoddion gan ardaloeddd cymorth allweddol.*




## Fe roddoch **CHI** £94,716

i Gronfa Aber yn 2016/2017
(i fyny 10% ers y flwyddyn ddiwethaf)

Cynorthwywyd mwy na **1,200** o fyfyrwyr

**827** o Roddwyr Unigol

**£114** yw'r rhodd blynyddol ar gyfartaledd (£10 y mis)

Gwnaeth **323** eu rhodd cyntaf erioed

Cyllidwyd **26** o brosiectau myfyrwyr newydd

## EICH EFFAITH...

Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth, faint bynnag ydyw, ac mae pob ceiniog yn mynd i gyllido gwaith er lles myfyrwyr - hebddo, byddai'r prosiectau isod yn rhai cyfyngedig iawn neu ni fyddai ganddynt arian o gwbl:



**Derbyniodd y Gronfa Caledi Myfyrwyr bron £50,000 i roi cymorth ar unwaith i fyfyrwyr a fyddai efallai'n wynebu gorfod gadael y brifysgol oherwydd trafferthion ariannol.**

Llwyfan E-fentora ar-lein sy'n cysylltu myfyrwyr â chyn-fyfyrwyr a graddedigion ifainc Aber, er mwyn cynnig cyngor a mentora ynglŷn â gyrfa fel y gall y myfyrwyr gyflawni eu potensial yn y man gwaith.

cynllun **eFentora**
**eMentoring** scheme



Llongyfarchiadau i **Elliot Vale**, sy'n astudio Ffiseg a Ffiseg y Gofod, yr oedd ei ap cysyniadol yn un o ddeuddeg enillydd Her SatelLife Asiantaeth Ofod y DU. Cynlluniwyd GeoRescue er mwyn cynorthwyo pobl sy'n byw neu'n teithio mewn ardaloedd lle mae perygl o drychineb naturiol yn uchel, ac mae'n darparu gwybodaeth mewn amser real ar drychinebau sy'n cael eu rhagweld, yn debygol neu'n digwydd.



Enillodd **James Bryan**, sy'n fyfyriwr ail flwyddyn Busnes a Rheolaeth, wobrau Entrepreneur y Dyfodol a Busnes Gorau yng nghystadleuaeth Her Syniadau Mawr, cystadleuaeth genedlaethol i ddod o hyd i'r mentergarwyr ifanc mwyaf dawnus yng Nghymru, a rhoi llwyfan i'w syniadau. Enillodd James y wobr am ei ap arloesol *Snapsearch for Snapchat.*



Llongyfarchiadau i **Iestyn Tyne**, myfyriwr trydedd flwyddyn yn Adran y Gymraeg, ar ennill y Gadair yn 40fed Eisteddfod CFfI Cymru yn Abertawe.

Enillodd **Mared Llywelyn Williams** (Cymraeg ac Astudiaethau Theatr, 2014 a Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol, 2016) y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2017 ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Dyfarnwyd Gwobr Goffa'r Athro Gwyn Thomas gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyn-fyfyriwr o Brifysgol Aberystwyth, **Rhodri Siôn** (Cymraeg Proffesiynol, 2016), am y traethawd gorau a gyflwynwyd yn Gymraeg gan fyfyriwr israddedig o brifysgol yng Nghymru.

Enillwyd pedair o'r prif wobrau yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017 – y Goron, y Fedal Ddrama, y Rhuban Glas a'r Gadair – gan gyn-fyfyrwyr, sef **Gwion Hallam** (Ysgrifennu Creadigol, Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd), **Heiddwen Tomos** (Cymraeg), **Steffan Prys Roberts** (Rheoli Cefn Gwlad, 2009) ac **Osian Rhys Jones** (Cymraeg a Hanes Cymru), yn y drefn honno. Crëwyd Cadair yr Eisteddfod gan gyn-fyfyriwr arall **Rhodri Owen** (Celfyddyd Gain).



*O'r chwith i'r dde: Steffan, Heiddwen, Osian, Rhodri, Gwion.*

# Y Silff Lyfrau

*Amlinelliadau byrion o rai o'r lliaws o lyfrau a gynhyrchwyd gan academyddion Aberystwyth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:*




## Colour Atlas of Glacial Phenomena

**Michael Hambrey (Daearyddiaeth a Gwyddor Daear)** a Jürg C Alean

O ystyried bod rhewlifoedd a haenau rhew yn gorchuddio tua 10% o arwynebedd tir y ddaear mewn byd lle mae effeithiau gweithgaredd rhewlifol newidiol yn dylanwadu fwyfwy ar wareiddiad dynol, mae'r *Colour Atlas of Glacial Phenomena*, sy'n olrhain dylanwadau rhewlifoedd a haenau rhew ar yr amgylchedd byd-eang, yn ganllaw anhepgor i fyfyrwyr, pobl broffesiynol ac ymchwilwyr sydd am fod yn fwy gwybodus wrth astudio.




## William Robert Grove: Victorian Gentleman of Science

**Iwan Rhys Morus (Hanes a Hanes Cymru)**

Bywgraffiad hygyrch ac awdurdodol y gwyddonydd o Gymro, gŵr pwysig a hynod ddylanwadol mewn gwyddoniaeth Fictoraidd. Roedd ei yrfa yn wyddonydd yn ogystal â bargyfreithiwr a barnwr blaenllaw yn rhychwantu'r oes Fictoraidd, ac fe chwaraeodd ran hanfodol yn y symudiad i ddiwygio'r Gymdeithas Frenhinol. Bydd y bywgraffiad hwn yn gosod gyrfa a chyfraniad Grove yn ei gyd-destun, ac yn rhoi sylw arbennig i bwysigrwydd diwylliant diwydiannol Cymreig ar ei agwedd wyddonol.




## Aleksandr Sokurov: Russian Ark *(KinoSputniks companion guides series)*

**Birgit Beumers**
**(Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu)**

Cafodd y ffilm *Russian Ark (2002)* ganmoliaeth ryfeddol am ei thechneg: fe'i tynnwyd gyda steadicam mewn un cynnig o 96 munud, gan ddilyn y Marquis de Custine wrth iddo grwydro drwy'r Palas Gaeaf enfawr – a thrwy 300 mlynedd o hanes Rwsia. Drwy roi crynodeb cynhwysfawr, dadansoddiad trwyadl, a disgrifiad o hanes y cynhyrchiad, mae Beumers, yn yr arweiniad hwn, yn rhoi i ni gipolwg ar waith, chwedlonol erbyn hyn, Aleksandr Sokurov.



## The British Commonwealth and Victory in the Second World War

**Iain Johnston-White (Gwleidyddiaeth Ryngwladol)**

Dyma'r astudiaeth gynhwysfawr gyntaf o'r Gymanwlad Brydeinig yn yr Ail Ryfel Byd. Prydain a'i Dominiynau, Canada, Awstralia, Seland Newydd a De Affrica oedd y gynghrair fwyaf parhaol, cydweithredol ac ymgyfnewidiol yn y rhyfel. Tarddodd traean yr ymdrech 'Brydeinig' o'r Dominiynau, cyfraniad a oedd yn bosibl yn unig oherwydd y berthynas symbiotig yr oedd Prydain wedi ei chynnal â'i hen drefedigaethau a'u gwladychwyr. Mae Johnston-White yn cynnig ailgyfeiriadaeth sylfaenol i'n dealltwriaeth o uchel strategaeth Prydain yn yr Ail Ryfel Byd.




## Theatre, Time and Temporality: Melting Clocks and Snapped Elastics

**David Ian Rabey**
**(Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu)**

Yn yr ymchwiliad hwn o bwnc tymoroldeb mewn theatr a pherfformiad, mae Rabey yn cynnwys ffynonellau sy'n amrywio o theatr ganoloesol a'r Dadeni i berfformiadau cyfoes, yn ogystal â gweithiau ysgrifenedig diweddar ym meysydd ffiseg, athroniaeth a seicoleg, er mwyn dadansoddi ffyrdd y gellir cyflwyno, cyfleu a thrawsnewid amser yn y theatr. Sut ydyn ni'n cael profiad o amser yn y theatr a sut y gall y profiad hwnnw gael ei newid neu ei drafod? Bydd dadansoddiad ac ymchwiliad Rabey yn sbarduno trafod ymhlith myfyrwyr ac ysgolheigion drama yn ogystal ag ymhlith perfformwyr a dramodwyr.




## Islam and International Relations: Fractured Worlds

**Mustapha Kamal Pasha**
**(Gwleidyddiaeth Ryngwladol)**

Mae'r gyfrol hon yn ailffurfio ac yn chwalu'n sylfaenol y ddealltwriaeth ganfyddedig o natur a lleoliad cymelliadau Islamaidd mewn cysylltiadau rhyngwladol. Mae'r gyfrol yn gasgliad o draethodau arloesol gan Mustapha Kamal Pasha, yn cyflwyno esboniad amgen o faterion dadleuol a dryswch rhwng Islam a moderniaeth. Mae'r gyfrol eang ei maes yn dangos cyfyngiadau'r dychymyg gwleidyddol Gorllewinol, yn arbennig ei ddehongliad rhyddfrydig o'r gwahaniaeth tybiedig rhwng Islam a'r Gorllewin. Mae erthyglau Pasha, sydd wedi'u rhannu'n dair adran, yn rhoi sylw i annerbynioldeb, heriau ac ymatebion Islamaidd, ac yn edrych hefyd y tu hwnt i gysylltiadau rhyngwladol Gorllewinol.




## Big Pig, Little Pig: A Tale of Two Pigs in France

**Jacqueline Yallop**
**(Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol)**

Pan mae Jacqueline yn symud gyda'i gŵr i dde-gorllewin Ffrainc, mae hi'n cymryd at fywyd mewn pentref gwledig ac yn prynu dau fochyn i'w magu ar gyfer eu lladd. Ond fel y mae hi'n dod yn fwy cyfarwydd â'r anifeiliaid, mae ei sentimentaleiddwch Seisnig yn bygwth ei chynlluniau ac mae hi'n dechrau amau a all hi fynd ati i'w lladd. Atgofion sydd yma am y penderfyniad tyngedfennol hwnnw, ond mae hefyd yn ymwneud ag etheg bwyta cig yn yr oes fodern, ac a ddylen ni ddod i adnabod, parchu a hyd yn oed garu'r anifeiliaid rydyn ni'n eu bwyta.



## C F Tunnicliffe Prints: A Catalogue Raisonné

**Robert Meyrick a Harry Heuser**
**(Yr Ysgol Gelf)**

Mae catalog raisonné yr Academi Gelf Frenhinol, a'i fanylion hardd yn cyflwyno ysgythriadau eithriadol, engrafiadau pren a thorluniau Charles Frederick Tunnicliffe RA, un o ddarlunwyr bywyd gwyllt enwocaf yr ugeinfed ganrif. Mewn 336 tudalen, mae'n cynnwys 400 o ddelweddau lliw ynghyd â thestun treiddgar a dadlennol gan yr arbenigwyr llunio printiau, Meyrick a Heuser.




## Her a Hawl Cyfieithu Dramâu: Saunders Lewis, Samuel Beckett a Molière

**Rhianedd Jewell (Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd)**

Dyma'r astudiaeth gyntaf o waith cyfieithu un o gewri'r ddrama, sef Saunders Lewis. Mae ei gyfieithiadau o weithiau'r dramodwyr Ffrangeg Samuel Beckett a Molière yn datgelu agwedd newydd a dadlengar ar y llenor a adwaenir fel dramodydd, nofelydd a gwleidydd yn hytrach na chyfieithydd. Ystyrir hanes cyfieithu ac addasu yn y theatr Gymraeg a'r modd y maent wedi gwneud cyfraniad pwysig i ddatblygiad y ddrama Gymraeg; edrychir hefyd ar bwysigrwydd Ewrop, a Ffrainc yn benodol, i Saunders ac arwyddocâd hyn fel sail i'w waith cyfieithu. Trafodir y modd y mae ei ddulliau cyfieithu yn adlewyrchu ei ddatblygiadau personol a phroffesiynol dros gyfnod o ddeugain mlynedd, a beth yw rhan y cyfieithydd ym myd y theatr – pa hawl sydd gan gyfieithydd i addasu darn llenyddol, er enghraifft, a ble mae gosod ffin rhwng cyfieithu, addasu a chreu testun newydd, ac i ba raddau felly y mae i'r cyfieithiad newydd werth celfyddydol gwreiddiol ynddo'i hun.




## Ruddigore (WS Gilbert & Arthur Sullivan)

**Golygydd: David Russell Hulme**
**(Canolfan Gerdd y Brifysgol)**

## The Yeomen of the Guard (WS Gilbert a Arthur Sullivan, gol. Colin Jagger)

**Golygydd Ymgynghorol: David Russell Hulme (Canolfan Gerdd y Brifysgol)**

Mae argraffiad 2000 Gwasg Prifysgol Rhydychen o *Ruddigore* (2 gyfrol: argraffiad sgôr lawn feirniadol a sgôr piano/llais) wedi ei adolygu ar gyfer ei gyhoeddi mewn clawr papur yn 2017. Dyma'r argraffiad beirniadol cyntaf o Opera Savoy gyflawn, ac roedd y cyhoeddiad hwn a oedd yn torri tir newydd yn gosod meincnod ar gyfer gwaith dilynol yn y maes. Gan gynnwys cryn swm o ddeunydd coll neu lygredig, fe'i llwyfanwyd yn ddiweddar gan Opera North. Drwy ddibynnu ar ei wybodaeth eithriadol cafwyd cyfraniad o bwys gan David Russell Hulme, yr awdurdod pennaf yn y maes, fel golygydd ymgynghorol argraffiad newydd Gwasg Prifysgol Rhydychen o *The Yeomen of the Guard* un o'r operâu Prydeinig gorau, a gyhoeddwyd hefyd y flwyddyn hon.




## Biotechnology of Major Cereals

**Golygydd: Huw Jones (IBERS)**

Mae *Biotechnology of Major Cereals* yn canolbwyntio ar ddatblygiadau diweddar a disgwyliadau'r dyfodol mewn biotechnoleg grawnfwydydd. Mae rhan gyntaf y llyfr yn trafod prif rawnfwydydd y byd ac yn canolbwyntio ar ddatblygiadau a thueddiadau newydd. Mae'r ail ran yn cael ei harwain gan dechnoleg yn hytrach na rhywogaethau, gan fanylu ar ddatblygiadau sylfaenol mewn technoleg a nodweddion targedau pwysig.




## Remembering the Second World War

**Golygydd: Patrick Finney**
**(Gwleidyddiaeth Ryngwladol)**

Mae'r llyfr hwn yn dwyn ynghyd griw rhyngwladol ac amlddisgyblaethol o ysgolheigion blaenllaw i goffáu'r gwrthdaro hwn ar raddfa fyd-eang. Yn gysyniadol, gosodwyd yr angen i herio'r agweddau sy'n canolbwyntio ar genhedloedd mewn astudiaethau cof, a chael cryfder o droadau trawsddiwylliannol, affeithiol ac amlgyfeiriad diweddar. Mae'r llyfr wedi'i rannu yn bedair rhan thematig, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyfnod ar ôl y Rhyfel Oer, a welodd gynnydd trawiadol yn y gweithgarwch coffadwriaethol sy'n ymwneud â'r Ail Ryfel Byd a newidiadau ansoddol pwysig yn ei gymeriad.

# Teyrngedau

*Gyda thristwch mawr yr ydym yn cofnodi ar y tudalennau hyn golli cyn-fyfyrwyr, myfyrwyr, Cymrodyr ac aelodau staff, sydd, neu a fu'n astudio yma, ac yr hysbyswyd ni am eu marwolaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd a chyfeillion y sawl a restrir yma.*

*Mae'r ysgrifau coffa ar gael yn llawn ar www.aber.ac.uk/cy/development/alumni/coffa*

## Cymrodyr

### Joseph Patrick Clancy (1928 – 2017)



Ganwyd Joseph P. Clancy yn Efrog Newydd yn 1928. Ef oedd cyfieithydd mwyaf blaenllaw llenyddiaeth Gymraeg Canol a modern i'r Saesneg, yn ogystal â bod yn fardd yn yr iaith Saesneg hefyd.

Daeth Joseph i gysylltiad â llenyddiaeth Gymraeg am y tro cyntaf ar ôl darllen cyfieithiad Saesneg o gerdd Gymraeg o'r Oesoedd Canol, a phenderfynu y gallai wneud yn well ac aeth ati i ddysgu'r Gymraeg.

Ar ôl sawl cyfnod byr o astudio yng Nghymru cychwynnodd ar flwyddyn sabothol yma yn Aberystwyth yn 1972.

Pan ymddeolodd yn 1990, symudodd ef a Gerrie, ei wraig, i Aberystwyth gan fyw yma am dros 20 mlynedd.

Yn Gymrawd o Adran Saesneg yr Academi Gymreig, Cymrawd Anrhydeddus o Brifysgol Aberystwyth, ac Athro Emeritws mewn Saesneg yng Ngholeg Manhattan Marymount, cafodd hefyd ei anrhydeddu â gradd D.Litt. gan Brifysgol Cymru am ei waith fel bardd a chyfieithydd.

### Glyn Tegai Hughes (1923 – 2017)



*Llun: BBC*

Roedd Glyn Tegai yn academydd asgetig ac yn un o feirniaid llenyddol gorau Cymru a gyfunai wybodaeth ddofn am lenyddiaeth Gymraeg â diddordeb brwd yn llenyddiaeth yr Almaen a'r Swistir.

Fe'i ganed yng Nghaer yn 1932, yn fab i'r Parchedig John Hughes, gweinidog Wesleaidd, a bu Glyn Tegai yn gwasanaethu yn gapten am bedair blynedd ac yna'n uwch gapten dros dro gyda'r Ffiwsiliwyr Cymreig Brenhinol.

Ar ôl y rhyfel mynychodd Brifysgol Corpus Christi, Caergrawnt, lle'r oedd yn Ysgolor Donaldson, enillodd radd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn tripos ieithoedd modern ac yno y dyfarnwyd iddo'i ddoethuriaeth.

Yn ei gyfnod yn y Brifysgol dechreuodd ymddiddori mewn gwleidyddiaeth. Safodd yn ymgeisydd y Blaid Ryddfrydol yn etholaeth Gorllewin Dinbych deirgwaith rhwng 1950 a 1959, gan ddod yn ail agos bob tro.

Yn 1952 cafodd ei benodi'n ddarlithydd llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Basel, ac yna treuliodd un mlynedd ar ddeg ym Mhrifysgol Manceinion, yn gyntaf yn ddarlithydd mewn astudiaethau llenyddol cymharol ac yna'n diwtor yng Nghyfadran y Celfyddydau.

Yn 1964 cafodd ei benodi yn warden cyntaf Neuadd Gregynog, canolfan breswyl Prifysgol Cymru, lle'r aeth ati i aildrefnu'r llyfrgell, i ail-gynllunio ei 750 o aceri ac i adfywio Gwasg Gregynog, un o weisg preifat enwog y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel byd.

Bu hefyd yn cymryd rhan mewn materion cyhoeddus fel cadeirydd Undeb Cymru Fydd (1968-70) (trefniadaeth ryng-bleidiol a grewyd i ymgyrchu am Senedd i Gymru), bu'n aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru, fe'i penodwyd yn Llywodraethwr Cenedlaethol BBC Cymru ac yn gadeirydd (1977-94), bu'n llywydd y Gymdeithas Llyfrgelloedd Preifat (1980-82), yn aelod o S4C, ac yn gadeirydd yr Ymddiriedaeth Darlledu Cymru (1988-96). Dyfarnwyd iddo gymrodoriaeth anrhydeddus Prifysgol Aberystwyth yn 2000.

## Margaret Joy Welch (1926 – 2017)



Yn wreiddiol o Galgate, ger Caerhirfryn, graddiodd Joy o Aberystwyth gyda BSc mewn Economeg ym 1950. Bu'n astudio daearyddiaeth ac athroniaeth hefyd, a bu'n capten tenis menywod ym 1948.

Yn 17 oed, gwirfoddololdd Joy i ymuno â Gwasanaeth Morol Brenhinol y Menywod yn ystod yr Ail Ryfel Byd a chafodd ei hanfon i Eastcote, ger Ruislip. Roedd Eastcote yn allorsaf i Barc Bletchley, a alwyd hefyd yn HMS Pembroke V. Roedd yn dal 100 o beiriannau torri cod Bombe a oedd yn cael eu defnyddio i ddatgodio negeseuon Enigma Almaenaidd. Nid oedd teulu agosaf Joy yn gwybod unrhyw beth am ei swydd tan i'r wybodaeth gael ei datgelu yn y 1970au.

Rhoddodd Joy roddion dyngarol i nifer o brosiectau ym Mhrifysgol Aberystwyth dros y blynyddoedd, yn unigol, a thrwy Ymddiriedolaeth Elusennol Addysgol Joy Welch, a sefydlodd ym 1988. Roedd gan Joy ddiddordeb arbennig mewn prosiectau ôl-raddedig gwyddonol oedd â manteision dichonol i economi'r DU. I gydnabod ei chymorth hirdymor, dyfarnwyd Cymrodoriaeth Er Anrhydedd iddi ym Mhrifysgol Aberystwyth ym 1998.

Rydym yn cofio am Joy fel menyw ddi-lol, dalog, penderfynol, anghonfensiynol nad oedd yn gyfforddus â'r byd o'i chwmpas bob amser. Roedd hi'n ffrind a pherthynas ffyddlon ac yn hynod o hael tuag at lawer a oedd yn ddigon ffodus i'w hadnabod ac i lawer o bobl na chyfarfu hi â nhw erioed.

## Janet Lewis Jones (1950 – 2017)



*Llun: Sefydliad Cymunedol yng Nghymru*

Pan wnaethpwyd Janet Lewis Jones yn Gymrawd Er Anrhydedd ym Mhrifysgol Aberystwyth ym 2008, roedd hi'n Is-Lywydd Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain. Dyma un o blith nifer o feysydd y gwnaeth Janet gyfraniad arbennig i fywyd cyhoeddus.

Astudiodd Janet y Gyfraith ym Mhrifysgol Lerpwl a chafodd ei galw i'r bar ond dewisodd y Gwasanaeth Sifil (Y Swyddfa Gartref, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, Swyddfa'r Cyfrin Gyngor).

Gwasanaethodd ar fyrddau nifer o elusennau gan gynnwys Barnardos, The Baring Foundation ac Ymddiriedolaeth Carnegie UK.

Gwasanaethodd hefyd ar fyrddau'r BBC, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, Comisiwn y Gwasanaethau Post, yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Dyfrffyrdd Prydain ac am 10 mlynedd a mwy bu'n aelod o fwrdd S4C, gan gynnwys cyfnod fel Cadeirydd y bwrdd hwnnw.

Roedd hi'n ymgynghorydd i'r Esgobion yn Nhŷ'r Arglwyddi a gweithiodd yn agos â Rowan Williams pan oedd yn Archesgob Caergaint.

Symudodd yn ôl i Gymru ym 1986 pan ymunodd â'r tîm a oedd yn cydlynu'r gwaith o breifateiddio'r diwydiant dŵr. A 15 mlynedd yn ddiweddarach chwaraeodd Janet rôl ganolog wrth "ddad-breifateiddio" Dŵr Cymru.

Roedd Janet yn unigolyn nodedig, yn bolymath a wnaeth ac a gyflawnodd gymaint dros eraill, Cymraes hyfryd, neu yn ei geiriau hi, yn "hen goes".

## Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies o Lanegryn (1923 – 2017)



*Llun: TopFoto/UPP*

Darllenodd Gwilym Prys Davies y Gyfraith yn Aberystwyth ac fe ddaeth yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Aeth yn ei flaen i chwarae rhan bwysig ym mywyd gwleidyddol Cymru ac ymgyrchu'n frwd dros ddatganoli i Gymru.

Ac yntau'n aelod o Fudiad Gweriniaethwyr Cymru ar y dechrau, ymunodd Gwilym Prys Davies â'r Blaid Lafur wedyn ac fe luniodd ddogfen yn 1963 yn trafod posibiliadau sefydlu llywodraeth etholedig yng Nghymru.

Yn 1966, ar ôl methu â chael ei ethol i Dŷ'r Cyffredin, dychwelodd i'w waith fel cyfreithiwr ym Mhontypridd, yn arbenigo ar gynrychioli dioddefwyr afiechydon diwydiannol. Yn ogystal â chynghori glowyr a'u teuluoedd ar fynd i'r gyfraith, helpodd i sicrhau bod rhieni'r plant a laddwyd yn nhrychineb Aberfan yn cael cynrychiolaeth gyfreithiol briodol.

Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn iechyd cyhoeddus, ac fe'i penodwyd yn gadeirydd ar Fwrdd Ysbytai Cymru yn 1968.

Yn 1974, penodwyd un arall o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth, sef John Morris (sydd erbyn hyn yn Arglwydd Morris o Aberafan) yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac fe gyhoeddodd ei fwriad o gyflwyno datganoli i Gymru. Penododd ef Gwilym Prys Davies i fod yn gynghorydd gwleidyddol rhan-amser iddo. Bu'n rhaid aros 23 o flynyddoedd nes i Gymru gael ei Chynulliad.

Yn 1982 cymerodd Gwilym Prys Davies sedd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac ef oedd yr aelod cyntaf o'r tŷ hwnnw i dyngu'r llw yn Gymraeg.

## Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan (1939 – 2017)



*Credyd: Llyfrgell Genedlaethol Cymru - llun wedi'i drwyddedu o dan CC gan 2.0*

Ganwyd Rhodri Morgan yng Nghaerdydd yn fab i T J Morgan, Athro Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, a Huana Rees (athrawes).

Mynychodd Rhodri Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Caerdydd, graddiodd mewn Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg (1961) yng Ngholeg Sant Ioan, Rhydychen ac yna enillodd radd meistr mewn Llywodraeth (1963) ym Mhrifysgol Harvard.

Ar ddechrau'i yrfa roedd yn diwtor i Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (1963-65), yn swyddog ymchwil ar gyfer llywodraeth leol a chanolog (1965-71), yn ymgynghorydd economaidd i'r Adran Masnach a Diwydiant (1972-74), yn Swyddog Datblygu Diwydiannol ar gyfer De Morgannwg (1974-80), ac yn bennaeth y wasg a gwybodaeth i Gymru ar gyfer y comisiwn Ewropeaidd (1980-87).

Er ei fod yn aelod o deulu academaidd amlwg, dewisodd droi at yrfa mewn Gwleidyddiaeth trwy ddod yn Aelod Seneddol Gorllewin Caerdydd yn 1987 ac aros yn y swydd honno hyd 2001. Bu'n Llefarydd yr Wrthblaid dros yr Amgylchedd (1988-94), a hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Weinyddiaeth Gyhoeddus (1997-99).

Hoffter arbennig Rhodri oedd Cymru, a phan gyrhaeddodd datganoli, dewisodd ddod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe'i etholwyd yn aelod o'r cynulliad dros Orllewin Caerdydd yn 1999, ac yna fe'i benodwyd yn fuan yn Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygiad Economaidd a materion Ewropeaidd.

Yn Chwefror 2000, daeth Rhodri yn Ysgrifennydd Cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol. Ym mis Mai 2007, fe'i gwnaed yn Brif Weinidog Cyntaf Cymru, wrth i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 greu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymddeolodd o arweinyddiaeth Plaid Lafur Cymru ac o fod yn Brif Weinidog yn Rhagfyr 2009.

Roedd Rhodri yn ymwelydd cyson â gorllewin Cymru a byddai ef a'i wraig Julie yn mwynhau treulio'u gwyliau haf ar arfordir Ceredigion.

Dyfarnwyd amryw o raddau er anrhydedd iddo gan gynnwys Cymrodoriaeth Anrhydeddus o Brifysgol Aberystwyth yn 2009. Yn 2001 fe'i penodwyd yn Ganghellor Prifysgol Abertawe a pharhaodd yn y swydd honno hyd ei farwolaeth ar 17 Mai 2017.

## Gareth Llewelyn Howell (1942 – 2018)



Cawsai Gareth Howell ei gydnabod am ddyfeisio atebion arloesol ac ymarferol i broblemau mewn gwledydd a oedd yn trawsnewid neu'n ailgodi o sefyllfaoedd argyfyngus ofnadwy. Cawsai ei ystyried yn hael ac yn rhadlon, a'i gydnabod yn fentor ac yn gynghorydd gwerthfawr i lawer. Oherwydd y cyfraniadau hyn a'i gefnogaeth barhaus i Brifysgol Aberystwyth, fe'i gwnaed yn Gymrawd Anrhydeddus ac yn brif siaradwr yn seremoni raddio Ysgol y Gyfraith ar Orffennaf 20, 2017.

Ganwyd Gareth yn Rhiwbeina, ger Caerdydd, i William Llewelyn (Lyn) Howell a Myfanwy Howell ar Hydref 14, 1942. Cafodd ei addysgu yn Ysgol Ramadeg Y Bont-faen ac yn Ysgol Mill Hill, ger Llundain, enillodd Radd Anrhydedd yn y Gyfraith o Brifysgol Cymru, Aberystwyth (1963) ac roedd yn aelod o Gymdeithas Anrhydeddus Gray's Inn, Llundain.

Dechreuodd ei gyfraniadau i wahanol leoliadau ar draws y byd trwy weithio ym maes cysylltiadau llafur yng Nghwmni Moduro Ford cyn cael ei gyflogi yn ymgynghorydd i'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol a Grŵp Banc y Byd, lle bu'n helpu i gynllunio a hybu strategaethau datblygu economaidd. Yr aseiniadau hyn a'i denodd i fyw yn Colombia, Pacistan, Gwlad Thai, Indonesia ac Ewrop. Yn 1996, yn Bosnia-Herzegovina, yn ystod y cyfnod yn dilyn y rhyfel, arweiniodd Gareth dasglu Banc y Byd/Undeb Ewropeaidd i godi $130 miliwn i ailgyflogi'r rhai a fu'n ymladd, a hefyd bu'n helpu i wella safon addysg uwch a thechnolegol yn Nepal a Phacistan drwy ddefnydd effeithiol o fenthyciadau Banc y Byd.

Yn 1999, symudodd Gareth i Ddinas Efrog Newydd ac fe'i gwnaethpwyd yn bennaeth dros dro y Sefydliad Llafur Rhyngwladol i Bencadlys y Cenhedloedd Unedig. Yma, gweithiodd gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol i arwain ailadeiladu yn dilyn y rhyfel yn Kosovo a Dwyrain Timor, ac i godi safonau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol byd-eang, yn cynnwys lleihau'r arferion cyflogi gwael wrth gyflogi plant a mudwyr, a chamau i unioni'r llafur gorfodol honedig yn Burma a gwledydd eraill.

Cefnogodd ddatblygiad economaidd a chymdeithasol yn El Salvador, Georgia, Morocco, a Namibia trwy gynorthwyo llywodraethau i wneud y gorau o effaith grantiau mawr gan Gorfforaeth Her Mileniwm Gweinyddiaeth Dramor UDA (MCC).

Roedd Gareth yn Ynad Heddwch yng Nghymru a drafftiodd gynigion cynnar ar gyfer datblygiad cyfansoddiadol yng Nghymru, a ddeddfwyd yn y pen draw yn 1999. Ni phallodd ei gariad tuag at ei etifeddiaeth Gymreig a rhoddodd ei lyfrgell bersonol helaeth o lyfrau Cymraeg i Ganolfan Astudiaethau Cymreig Madog yn Ohio. Roedd yn Llywydd Emeritws Cymdeithas Cymru-America Dewi Sant yn Washington, DC, yn aelod o fwrdd Cymdeithas Gymreig Gogledd America, ac Ysgrifennydd Gogledd America ar gyfer Cymdeithas Hanes Cyfreithiol Cymru.

Roedd yn rhugl yn y Gymraeg a nifer o ieithoedd eraill, yn cynnwys Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg ac Wrdw.

Bu farw Gareth yn ei gartref yn Falls Church, Virginia, ar Ionawr 4 2018 ac mae'n gadael ei wraig ers 30 mlynedd, Amy Titus, a dau fab, Llewelyn a Rhys.

## David Vernon Morgan (1941 – 2017)



Daeth yr Athro Vernon Morgan, a gafodd ei fagu yn Pwll, ger Llanelli, yn un o beirianyddion electronig mwyaf nodedig Cymru ac yn ysgolhaig ysbrydoledig. Ymhlith ei ddiddordebau ymchwil roedd ffiseg a thechnoleg deunyddiau lled-ddargludyddion, dyfeisiau a chylchedau integredig.

Enillodd raddau BSc ac MSc Ffiseg o Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, PhD yng Ngholeg Gonville a Caius a Labordy Cavendish (ym Mhrifysgol Caergrawnt), a DSc (Eng) ym Mhrifysgol Leeds; bu'n dal Cymrodoriaeth Prifysgol Cymru yn Labordy Cavendish (1966-68), a Chymrodoriaeth Harwell (1968-70).

Yn 1970, ymunodd Vernon â'r gyfadran ym Mhrifysgol Leeds gan aros yno tan iddo ymuno â Phrifysgol Caerdydd yn 1985. Roedd yn athro ymchwil nodedig yng Nghaerdydd ac yn Gyn-Bennaeth yr Ysgol Beirianneg (1992-2002), gan feithrin ei henw da fel Ysgol o fri rhyngwladol oherwydd safon ei gwaith ymchwil.

Mae'r anrhydeddau a gafodd yn ystod ei yrfa yn cynnwys Cymrodoriaeth o'r Academi Frenhinol Peirianneg (1996), Cymrawd ac Is-Lywydd y Sefydliad Ffiseg (1992-96), Cymrawd Sefydliad y Ddinas a'r Urddau (1998), derbyn Croes y Babaeth gan y Pab John Paul II am Wasanaeth Nodedig i Addysg Uwch (2004), Cymrawd y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET), aelod hŷn o'r IEEE (UDA), Athro Nodedig Anrhydeddus Caerdydd (2010) ac un o Gymrodyr cyntaf Cymdeithas Ddysgedig Cymru (2011).

Cyfarfu Vernon â'i wraig Jean yn Aberystwyth a daeth yn Gymrawd Anrhydeddus y Brifysgol yn 2006.

# Staff

## Yr Athro Sandra Brown (1944 – 2017)

Penodwyd Yr Athro Sandra Brown, a oedd yn wyddonydd a chanddi enw da rhyngwladol, yn Athro er Anrhydedd yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn 2012. Yn ystod ei gyrfa hir a nodedig canolbwyntiodd ei gwaith ar fforestydd trofannol, ac yn benodol ar yr effeithiau mae'r datgoedwigo a'r diraddio a wneir gan bobl yn ei gael ar byllau carbon a fflycsau. Gellir darllen teyrnged i'r Athro Brown ar wefan Winrock International: www.winrock.org/news/in-memoriam-dr-sandrabrown-1944-2017/

## Yr Athro Harold Carter (1925 – 2017)

Graddiodd Harold Carter o Aberystwyth gyda gradd dosbarth cyntaf yn 1950, gan ymuno â'r Adran Ddaearyddiaeth fel darlithydd cynorthwyol a chwblhaodd ei radd MA yn 1952. Yn 1964 fe ddaeth yn Ddeon Cyfadran y Celfyddydau ac fe'i penodwyd yn Athro Daearyddiaeth Ddynol Gregynog yn 1968. Ystyriwyd ef yn awdurdod ar yr iaith Gymraeg. O 1981-83 ymgymerodd â swydd Dirprwy Brifathro, fe'i penodwyd yn Bennaeth Daearyddiaeth yn 1983, ac yna'n Ddeon Cyfadran Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg, swydd y bu ynddi tan iddo ymddeol yn 1986. Treuliodd Harold gyfnodau hefyd yn Athro ymweld ym mhrifysgolion Cincinnati a Maryland yn UDA, a Phrifysgol Stellenbosch yn Ne Affrica. Cafodd ei dderbyn yn aelod o Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Llanrwst 1989, ac fe'i etholwyd i Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2011.

## Dr John Corton

Roedd John yn aelod amlwg a gwerthfawr o staff IBERS. Daeth i Gogerddan yn gyntaf yn 2010 i wneud ei PhD, lle'r oedd yn rhan o'r prosiect ymchwil ProGrass rhyngwladol i gynhyrchu bio-ynni o laswelltiroedd aeddfed. Enillodd John ei ddoethuriaeth yn 2015 a daeth yn Gynorthwyydd Ymchwil Ôl-Ddoethurol gyda phrosiect BEACON, yn gweithio ym maes trawsnewid biomas yn gynnyrch bioseiliedig. Roedd hefyd yn dysgu ar ein cynllun gradd MSc, Biotechnoleg Werdd.

## Dr Bernard Delagneau

Yn wreiddiol o Ffrainc, penodwyd Dr Delagneau yn Ddarlithydd mewn Marchnata yn yr Adran Economeg Amaethyddol yn 1971, swydd y bu ynddi am 28 mlynedd nes iddo ymddeol yn 1999.

## Dorothy Evans

Cyn ysgrifenyddes yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd oedd Dorothy Evans, ac yn y cyfnod rhwng y 1970au a'r 1990au bu hefyd yn teipio llawysgrifau i lu o gydweithwyr.

## Rhiannon Hughes (1937 – 2016)

Ymunodd Rhiannon â Choleg Prifysgol Cymru Aberystwyth, fel ag yr oedd bryd hynny, ym mis Medi 1953 fel ysgrifenyddes i Lyfrgellydd y Brifysgol Mr Arthur ap Gwynn. Yn ystod ei gyrfa bu'n gweithio i ddau lyfrgellydd arall yn y Brifysgol, Dr Hywel D Emanuel a Mr William Dieneman, cyn ymuno â Gwasanaethau Gwybodaeth yn 1995, pan ddaeth yn ysgrifenyddes i Dr Mike Hopkins, Cyfarwyddwr cyntaf GG. Erbyn iddi ymddeol yn Ebrill 2002, roedd Rhiannon wedi gwasanaethu'r Brifysgol am 49 mlynedd.

## Dr Michael (Mike) Johnston

Un o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth oedd Dr Mike Johnston, a enillodd radd BSc Sŵoleg ym 1957, a mynd ymlaen i ennill ei PhD ym Mhrifysgol Genedlaethol Awstralia, Canberra, ym 1967. Bu'n ymchwilio'n eang ym maes parasitoleg pysgod. Am nifer o flynyddoedd bu'n diwtor derbyn myfyrwyr yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yn diwtor academaidd yn yr adran am 30 mlynedd.

## Yr Athro Emeritus Bobi Jones (1929 – 2017)

Graddiodd Bobi Jones gyda gradd dosbarth cyntaf o Brifysgol Caerdydd yn 1949 a gradd uwch MA o Goleg Prifysgol Dulyn yn 1951. Bu'n dysgu mewn ysgolion (Llanidloes a Llangefni) ac yn bennaeth Adran y Gymraeg, Coleg y Drindod Caerfyrddin (1952-1958), cyn ymuno â Phrifysgol Aberystwyth yn 1958 yn ddarlithydd mewn addysg ac fe wnaeth waith arloesol ar ddwyieithrwydd a iaith plentyn. Ar ôl cwblhau ei ddoethuriaeth yn 1965, ymunodd Bobi ag Adran y Gymraeg fel darlithydd yn 1966, gan chwyldroi'r ddisgyblaeth, a chyflwyno myfyrwyr i ysgrifennu creadigol a theori lenyddol. Credai'n gryf mai trwy annog oedolion i ddysgu'r Gymraeg oedd sicrhau dyfodol yr iaith. Cafodd ei benodi i'r Gadair mewn Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn 1980, cyn ymddeol yn 1989.

## Rosemary Law (1939 – 2017)

Yn wreiddiol o Ogledd Iwerddon, daeth Rosemary i Aberystwyth yn 1964, gan weithio fel ysgrifenyddes ran-amser yn yr Adran Gymdeithaseg a throsglwyddo maes o law i'r Adran Gyfrifiadureg. Yn 1990 fe'i penodwyd i swydd amser llawn fel Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Cyfrifiadureg, a bu yn y swydd honno nes iddi ymddeol yn 2001. Bu Rosemary â'i gŵr David yn wardeiniaid Neuaddau Pumlumon a Chaerllion rhwng 1986-1988, ac roedd ei chydymdeimlad a synnwyr cyffredin wrth ddelio â phroblemau myfyrwyr yn rhywbeth hynod werthfawr. Bu Rosemary yn aelod gweithgar o NALGO a'i olynydd UNSAIN am nifer o flynyddoedd ac yn aelod hirsefydlog a brwdfrydig o Glwb Merched y Brifysgol.

## Dr Sandra Pierre (1978 – 2017)

Roedd Dr Sandra Pierre yn gydweithiwr a chyfaill i nifer yn IBERS a chymuned ehangach y Brifysgol ers sawl blwyddyn. Mewn ymchwil, gwnaeth gyfraniadau pwysig i'n dealltwriaeth o fiocemeg planhigion, er mwyn gwella iechyd planhigion a'r bobl sy'n eu bwyta. Rhwng 2006 a 2010 gweithiodd ar ei PhD yn IBERS, a ganolbwyntiai ar astudio Clefyd Ysgubellau'r Witshis, sef Theobroma cacao. Cyn hyn, astudiodd ym Mhrifysgol Paris VI a Phrifysgol Angers yn Ffrainc.

## Jacob Thomas Pugh (1938 – 2017)

Roedd Jacob yn gyn-borthor yn Llandinam a Llanbadarn.

## Yr Athro David Wulstan (1937 – 2017)

Roedd yr Athro David Wulstan yn Athro Cerdd Emeritws ac Athro er Anrhydedd yn Adran Ieithoedd Modern Prifysgol Aberystwyth, a Chymrawd er Anrhydedd yng Ngholeg San Pedr Rhydychen. Bu'n astudio cerddoriaeth yng Ngholeg Magdalen, Rhydychen, a bu'n Athro Cerddoriaeth yng Ngholeg Prifysgol Cork, cyn cael ei benodi i Gadair Cerdd Gregynog ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Hydref 1983. Fel ysgolhaig, golygodd ac ail-grëodd nifer o weithiau gan gyfansoddwyr o'r cyfnod Tuduraidd megis John Sheppard a Christopher Tye, a chyhoeddodd yn helaeth yn y maes, gan gynnwys dau lyfr llawn. Bu hefyd yn cyfansoddi ar gyfer ffilm a theledu.

# Estynnwn Gydymdeimlad â theuluoedd a Chyfeillion y canlynol:

** Aelod o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr*

**Aderaye**, Mr Marcus Curtis (Daearyddiaeth Ffisegol, 2014), bu farw Ionawr 2017

**Anderson**, Mr Paul Howard (Addysg, 1970), bu farw Tachwedd 2016

**Ball**, Mr Lewis Aidan (Astudiaethau Ffilm a Theledu, 2014), bu farw Chwefror 2017

**Baskerville**, Mrs Eirionedd Ann, née James, (Cymraeg & Hanes Cymru, 1990), bu farw Ionawr 2017*

**Best**, Mr Darrin Francis (Hanes & Gwleidyddiaeth, 1987), bu farw Awst 2017

**Bethell**, Mr John Pennington (Daearyddiaeth, 1950), bu farw April 2017*

**Bowen**, Yr Athro D J (Cymraeg, 1949), bu farw Awst 2017*

**Broadhurst**, Mr Robert (Drama ac Astudiaethau Theatr, 2014), bu farw Ionawr 2017

**Clark**, Miss Sian Elizabeth (Busnes gyda Cymraeg, 2002), bu farw Mawrth 2017

**Edwards**, Mr Christopher Scott (Asesu Effeithiau Amgylcheddol, 1997), bu farw Ionawr 2017

**Fisher**, Mr Michael Leonard Vincent Arthur (Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1971), bu farw Gorffennaf 2017

**Garrington**, Mrs Sally Lucy, née Wood, (Daearyddiaeth, 1974), bu farw Rhagfyr 2016*

**Green**, Mrs Elizabeth, née Hope, (Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1974), bu farw Medi 2016*

**Hall Williams**, Mrs Nia, née Wynn Jones, (1948), bu farw Rhagfyr 2016*

**Humphreys**, Ms Nicola Charmian (Bridio Planhigion), bu farw Ionawr 2017

**Johnson**, Mrs Patricia, née Kennedy, (Hanes, 1964), bu farw Medi 2016

**Johnston**, Dr Michael Richard Lascelles (1959), bu farw Ebrill 2017*

**Kirkwood**, Dr Ralph C (Ecoleg Uwchdir, 1959), bu farw Rhagfyr 2016

**McDonald**, Mrs Meinir, née Lewis, (1961), bu farw Chwefror 2017*

**McGinty**, Mr Michael (Gwleidyddiaeth Ryngwladol & History, 2006), bu farw Tachwedd 2016

**Mercer CBE,** Yr Athro Ian, bu farw Medi 2016

**Middleton**, Mr Kenneth Rigby (1939), bu farw Gorffennaf 2017

**Middleton**, Mr William Haydn (Daearyddiaeth a Daeareg, 1953), bu farw Mawrth 2017

**Moyle**, Rt Hon Roland Dunstan (Y Gyfraith, 1949), bu farw Gorffennaf 2017*

**Padfield**, Mrs Janet , née McLellan (Msc Botaneg Amaethyddol 1967 ) bu farw Awst 2016

**Parker**, Dr Geoffrey (Daearyddiaeth & Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1957), bu farw Tachwedd 2016*

**Pollard**, Mrs Dilys, née Thomas, (Cerddoriaeth, 1943), bu farw Rhagfyr 2016*

# Myfyrwyr

## Caitríona Lucas



Roedd Caitríona yn fyfyrwraig dysgu o bell yn yr adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth. Bu farw Caitríona wrth iddi wasanaethu fel gwirfoddolwr gyda Gwylwyr y Glannau Doolin. Yn y seremonïau graddio ym mis Gorffennaf 2017, derbyniodd teulu Caitríona ei gradd ar ôl marwolaeth er cof amdani (gweler tudalen 9).

## Emily Price



Roedd Emily Price yn fyfyrwraig yn ei blwyddyn olaf yn astudio Mathemateg a Ffiseg. Cyfrannodd Emily yn llawn i'r ddwy adran, ac roedd ganddi ddiddordeb a dawn benodol i gyfathrebu â phobl ifanc i sôn am wyddoniaeth a'u hannog i astudio'r pynciau roedd hi'n meddwl cymaint ohonynt. Yn y seremonïau graddio ym mis Gorffennaf 2017, derbyniodd teulu Emily ei gradd ar ôl marwolaeth er cof amdani (gweler tudalen 9).

**Pugh**, Dr David Michael Pryce (Cemeg, 1954), bu farw Gorffennaf 2017*

**Purse**, Dr John G (Botaneg, 1974), bu farw Tachwedd 2016

**Rees**, Mr Michael, bu farw Rhagfyr 2016

**Roberts**, Dr Geoffrey Ransford (Economeg, 1951), bu farw Rhagfyr 2016*

**Smart**, Miss Mary Kathleen (Daearyddiaeth & Anthropoleg, 1946), bu farw Rhagfyr 2016*

**Thomas Brown**, Ms Shelley Annabelle (Cerddoriaeth, 1981), bu farw Awst 2017

**Thomas**, Mrs Joyce, née Lewis, (Mathemateg, 1947), bu farw Tachwedd 2016*

**Thomas**, Yr Athro John Donald (Sŵoleg, 1950), bu farw Mawrth 2017

**Trood**, Dr Russell Brunell (Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1978), bu farw Ionawr 2017

**Trotman-Dickenson**, Syr Aubrey Fiennes, bu farw Tachwedd 2016

**Wainman**, Ms Susan Margaret (Astudiaethau Ceffylau, 1985), bu farw Rhagfyr 2016

**Weaver**, Mrs Jennifer Myfanwy, née Norman, (Gwyddorau Bywyd, 1960), bu farw Mehefin 2017*

**Whatley**, Ms Clare Ilona, née Duley, (Microbioleg, 1983), bu farw Tachwedd 2016

**Williams**, Miss Gaynor, bu farw Gorffennaf 2017

**Williams**, Mrs Margaret Evelyn, née Jones, (1968), bu farw Gorffennaf 2017*

**Wooldridge**, Mr Roylance (Mathemateg, 1940), bu farw Rhagfyr 2016

**Wooloff**, Miss Mary Margaret (Ffrangeg, 1942), bu farw Hydref 2016*

**Wyatt**, Yr Athro Peter A H (Cemeg, 1945), bu farw Tachwedd 2016*

**Wyer**, Mr Richard, bu farw Tachwedd 2016



# Cicio'r Bar

## *Can Mlynedd o Unigedd*

*gan Dr Russell Davies*

Daeth dathlu canmlwyddiannau yn rhan barhaol o'n bywydau yn y blynyddoedd diweddar, neu felly mae'n ymddangos o leiaf. Cofnodwyd yn barchus enedigaethau'r ddeuawd farddol ddeinamig, Dylan ac R S Thomas – y diotwr a'r amheuwr, yr oferwr a'r pregethwr – ac yn dynn ar eu sodlau daeth y dathliadau i nodi genedigaeth storïwr gorau Cymru – Roald Dahl. Credai ei rieni pe bai menyw feichiog yn cadw pethau prydferth o'i chwmpas, y byddai'r plentyn yn tyfu i greu pethau gwych. A barnu wrth rai o gymeriadau creulon a straeon annisgwyl arswydus ei mab, rhaid bod Mrs Dahl wedi cael amser ofnadwy yng Nghaerdydd yn 1916.

Babanod rhyfel oedd y drindod hon, babanod a genhedlwyd ac a anwyd yn ystod y Rhyfel Mawr sydd wedi arwain at gyfres o ganmlwyddiannau prudd yn ddiweddar. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, wrth i beiriant briwo hanes rygnu o ryfel i heddwch, byddwn yn dathlu digwyddiadau mwy heddychlon. Bydd y Brifysgol yn cofnodi canrifoedd cyntaf yr adrannau Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Daearyddiaeth a Bridfa Blanhigion Cymru. Sefydlwyd y rhain yn yr ysbryd o obaith sy'n nodweddiadol o'r blynyddoedd ar ôl y rhyfel. Roedd gobaith yn fwy tragwyddol nag uffernol i'r bobl yma, gan na wyddent mai cenhedlaeth rhwng y rhyfeloedd oedd eu cenhedlaeth hwy wrth iddynt geisio creu byd newydd a dewr. Daeth y tri yn sêr disglair yn ffurfafen academaidd y byd, gan gyfiawnhau mawredd uchelgeisiau eu sylfaenwyr.

Wrth ymyl yr Hen Goleg, saif un o'r tystiolaethau mwyaf nodedig i'r cyfryw deimladau o falchder yn y gorffennol a gobaith am y dyfodol trwy goffáu'r meirw gogoneddus. Ar graig beryglus ymhell uwchben y prom sydd yn nannedd y gwynt ac yn cael ei chwipio gan y tonnau, saif ffigwr benywaidd. Cerfddelwau oesol na fydd yn heneiddio wrth i gelfyddyd arall heneiddio. Gwaith y cerflunydd Eidalaidd, yr Athro Mario Rutelli o Balermo (1859-1941), ydynt.





Ar frig paladr pigfain o garreg, â'i thorch lawryf yn ymestyn allan, mae ffurf angylaidd ymhongar Nike, duwies buddugoliaethau. Mae'r ffurf isaf niwmatig yn cynrychioli dynoliaeth, sy'n ymgodi o dymhestloedd rhyfel. Rywsut yng nghanol yr holl gyffro, collodd ei dillad i gyd, a dim ond ambell ddeilen o wymon sy'n llwyddo i achub rhywfaint o'i gwyleidd-dra. Mae'n ddigon posib mai dyma'r cerflun mwyaf nobl yng Nghymru, ac mae'r *Pevsner Architectural Guide*, sydd fel arfer yn eithaf sidêt, yn nodi'n syn fod y cerflun yn 'annisgwyl o nwydus ar gyfer gwlad Anghydffurfiol'.

Castiodd yr Athro Rutelli gerflun nodedig arall ar lan y môr. Yn ei bwnc arbenigol ar Brydain Rhwng y Rhyfeloedd, byddai'r diweddar annwyl E L Ellis, hanesydd canrif gyntaf y Brifysgol, yn adrodd wrthym y stori am y tîm pêl-droed cyntaf yn chwarae mor wael yn 1936, fel y gwelwyd tri brenin rhwng eu buddugoliaeth gyntaf a'r nesaf. Saif un ohonynt o flaen yr Hen Goleg.

Y tro nesaf y byddwch yn mynd am dro ar y prom yn ystod eich aduniad, cyn ichi gicio'r bar, mynnwch olwg ar ei gerflun – dyma'r unig un o'r brenin Edward VIII annaliadwy yn y DU. Yn ystod ein blwyddyn gyntaf 1976, collodd ei ben yn llythrennol wrth i rywun (wyt ti'n darllen hyn?) ei lifio – roedd yn wahanol i'r gamp arferol ar ddiwrnod rag o'i baentio'n felyn, neu o osod bolard ar ei ben.

Pan ddaethpwyd o hyd iddo, ychydig iawn o ddawn artistig a ddefnyddiwyd gan y rheiny oedd yn gyfrifol am sodro'r pen ar y corff. Ond mae hyn yn addas gan fod y brenin bellach yn edrych yn briodol o lechwraidd. Mae'n syllu, nid ar y sawl sy'n edrych arno, ond mae'n osgoi cysylltu â'r llygaid, ac mae'n ymddangos fel pe bai'n edrych lawr i gesail ei regalia academaidd. Fel minnau yn y traethawd hwn mae'n chwilio am allanfa.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk

Cymru Wales
Campws Campus ★★★★★

CYCLISTS WELCOME CROESO BEICWYR

WALKERS WELCOME CROESO CERDDWYR

# Croeso Nôl

## Gwyliau'r Haf 2018

- Llety Campws Gradd 5*, *Croeso Cymru*
- Cynigion unigryw ar fwyd, diod ac adloniant y campws, i gyn-fyfyrwyr sy'n aros gyda ni
- Cyfraddau grŵp ar gyfer arosiadau penwythnos
- 20% o ostyngiad i gyn-fyfyrwyr sy'n aros am 3 noson neu fwy
- **Ar gael 13eg Gorffennaf – 9fed Medi 2018**



*"Mae Fferm Penglais yn cynnig llety myfyrwyr o'r safon uchaf ar hyn o bryd."*

**Croeso Cymru**







**conferences@aber.ac.uk ~ www.aber.ac.uk/cy/visitors**

**Ffôn: 01970 621960**

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/prom

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA
2018

PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AR GYFER ANSAWDD DYSGU

# Soniwch wrthon ni am eich profiadau Aber, a helpwch ni i ddweud wrth bobl eraill pam eich bod yn...

# #CaruAber



**Anfonwch eich atgofion atom er mwyn cael y cyfle i ennill un o'r thri thabled cyfrifiadurol Amazon Fire***

**Twitter | @Prifysgol_Aber (#CaruAber)**

**Ebost | ymholiadau@aber.ac.uk**

*Rhaid derbyn pob cynnig erbyn Mai $1^{af}$ 2018.
Dewisir yr enillwyr ar hap o'r holl geisiadau a dderbynnir, a byddant yn cael eu hysbysu o fewn pythefnos o ddewis yr enillwyr.

0118 - 22521